

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 357 - 60c
Hydref 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Anrhydeddu
Trefnydd
CFfi



Tudalen 5

Cadwyn
Cyfrinachau
arall



Tudalen 15

Pencampwr
Golff
Cymru



Tudalen 6

Dyffryn Cledlyn



Disgyblion Ysgol Newydd Dyffryn Cledlyn yn agor y drysau gyda'i gilydd.

Dygnwch Cymeriadau lleol



Emyr Williams (chwith) yn derbyn gwobr 'Tad y Flwyddyn' gyda'i deulu mewn seremoni gan Radio Ceredigion am ei ddewrder yn dioddef salwch difrifol ac am achub bywyd. Adroddiad llawn ar dudalen 8.

Rhai o gyn aelodau CFfi Llanwenog (uchod) a fu'n cneifio fel rhan o ddathliadau pen-blwydd y clwb yn 60 oed yn ddiweddar pan godwyd swm sylweddol tuag at achos da. Adroddiad llawn ar dudalen 16.



Llongyfarchiadau i Gethin Hatcher, Penllain, Gorsgoch a Sara Davies, Trefaes Fawr, Beulah ar achlysur eu priodas ar Fedi'r ail. Pob hapusrwydd i chi'ch dau.



Barry Davies, Pantyderi, Pentre Bach ac Elinor Hopkins, Hendryd, Maestir ar achlysur eu priodas yn Eglwys Maestir, Llambled ar 26ain o Awst. Llongyfarchiadau mawr i chi.



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Medi 24

Prynhawn hyfryd yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda [@CFfICwmann](https://twitter.com/CFfICwmann) heddiw i ddiolch i Eirios Thomas [@cffisirgar](https://twitter.com/cffisirgar).

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@MenterGSG](https://twitter.com/MenterGSG)
Medi 19

Diolch am fod yn rhan o lansiad Siarter Iaith [@ysgllanllwni](https://twitter.com/ysgllanllwni) [@CarmsCouncil](https://twitter.com/CarmsCouncil)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Medi 17

Oedfa Ddathlu a the [#Aberduar275](https://twitter.com/Aberduar275) prynhawn ma yn [#Llanybydder](https://twitter.com/Llanybydder). Cofiwch y Gymanfa heno am 6 o'r gloch.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@Eleri_Twynog](https://twitter.com/Eleri_Twynog)
Medi 16

Cyngerdd gwych!! Wedi mwynhau pob eiliad. Dathliad arbennig i Steddfod Pantyfedwen yn 50.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@Craffwr](https://twitter.com/Craffwr)
Medi 12

Taith Tractorau [#FfairRam](https://twitter.com/FfairRam) yn [Llanbed](https://twitter.com/Llanbed) bore ma yn codi arian at [@ProstateUK](https://twitter.com/ProstateUK)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@DyffrynCledlyn](https://twitter.com/DyffrynCledlyn)
Medi 6

Wythnos gyntaf wedi hedfan heibio! Prysurdeb i ni gyd! Diolch i bawb am eich geiriau caredig!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Eisteddfod Ddwl Papuru Bro Ceredigion '17

Dweud Jôc

Darllen darn heb atalnodau
Adrodd (gydag effeithiau sain)

Sgets - Castell Aberteifi 1176

Band Sied yr Ardd

Côr - unrhyw gân Ail Symudiad

Cystadlaethau
Llwyfan

Cystadlaethau
Gwaith Cartref

Ysgol Gynradd: Llun Dwrgi

Ysgol Uwchradd: Blog Yr Arglwydd Rhys,
wythnos cyn Eisteddfod Nadolig 1176
(hyd at 300 gair)

Brawddeg: Y Mwldan

Dysgwyr: Hysbys radio am Fae Ceredigion

Limrig: I ddechrau "Un noson mi welais y
dwrgi"

Neges Drydar: Yn gwahodd Donald Trump
i Aberteifi (hyd at 140 llythyren)

Trefnir gan



Arweinydd:
Keith Henson

Dewch draw
i gefnogi
Papuru Bro Clonc

Nos Wener Hydref
13eg
Neuadd Felinfach
Drysau 7.00 y.h.
Cychwyn 7.30 y.h.
Mynediad £3

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Hydref Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
Tachwedd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Siwan Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambed Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambed 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Mae eisiau gras ac amynedd yn aml yn y byd, onid oes?! Maddeued darllenwyr Clonc i fi am gael 'rant', ond wrth i ddyddiad cau am eitemau i Clonc brysur agosáu (neu hyd yn oed wedi pasio mewn gwirionedd!), mae 'na bwyse arna' i roi pin ar bapur. A'r hyn sydd wedi fy nharo i yn ystod y mis diwetha' yw bod biwrocratiaeth a gwaith papur yn boen.

Ydi, mae hyn yn hen ystrydeb, ac mae'n siŵr fod pawb yn cytuno. Ond yr hyn sy'n gwneud y peth yn annheg yw ei bod hi'n ymddangos bod un rheol i un set o bobol, a rheol hollol wahanol i eraill. Mae 'na rywun agos ata' i (ond heb fod yn byw yn ardal Clonc – felly does dim eisiau i ddim un cyngor cymuned boeni na cheisio dyfalu!) wedi gwneud cais cynllunio i droi shed i fwthyn bach. Rhwydd, meddwn i. A rhwydd, meddech chithau, mae'n siŵr. O na! Hanner blwyddyn oddi ar gwneud y penderfyniad a dechrau ar y busnes ymgynghori, dyw pethe'n fawr cliriach. Mae pob 'deadline' wedi'i thorri'n rhacs – nid gan y sawl sy'n gwneud y cais, ond gan rywun neu rywrai mewn siwt a thei yn rhyw swyddfa. Cafodd y lecshwn y bai am beri oedi ar un peth. Ac mae toriadau a diffyg staff hefyd wedi cael ei awgrymu fel esgus arall. Digon teg, ond dyw ffermwyr a gweithwyr hunangyflogedig a busnesau bychain ddim yn cael defnyddio diffyg staff na salwch na chynni economaidd fel rheswm dros dorri addewidion.

'First world problems' o bosib yw'r llith yma. Ac rwy'n barod i gyfadde' y dylem ni ddiolch ein bod ni'n byw yn y rhan hon o'r byd, o sylweddoli'r dioddefaint a'r annhegwch go-iawn sydd ar lawr ein daear ni. Ond mae'n gwneud lles weithiau i gael rant go-iawn hefyd, i fwrw'n boliau. Gydag hynny o eiriau, af oddi ar fy mocs sebon – tan y mis nesa'!

Cloncen

Lle gwych i olrhain y gorffennol a mwy

Archifdy Ceredigion yw swyddfa gofnodion y sir, ac fe ddewch chi o hyd i ni yn Hen Neuadd y Dref yn Aberystwyth. Mae gennym filoedd o ddogfennau unigryw a hynafol sy'n ymwneud â hanes Sir Aberteifi, y rhan honno o Ddyfed a adwaenir inni erbyn hyn fel Ceredigion. P'un a ydych chi'n hel achau neu'n olrhain hanes eich tŷ, yn gwneud prosiect yn yr ysgol neu'r brifysgol, neu ond â diddordeb yn hanes eich bro, mae'n siŵr y gallwn ni eich helpu. Mae croeso i bawb ymweld â'r Archifdy yn rhad ac am ddim, ac i olrhain hanes y sir drwy hen ddogfennau, papurau newydd, lluniau a mapiau. Bydd Tîm yr Archifdy bob amser wrth law i roi cyngor neu ateb cwestiynau. Os nad ydych chi wedi bod i'r Archifdy o'r blaen, byddwn yn falch cael dangos y lle i chi. Rydym hefyd yn dal i gasglu dogfennau sy'n taflu goleuni ar hanes y sir, ac felly os oes digwydd bod gyda chi ryweth fel hen gyfrifon fferm o oes Fictoria, llythrau hen fam-gu neu ryweth hynod y daethoch chi o hyd iddo yn yr atig, efallai mai Archifdy Ceredigion yw'r lle gorau i ddod iddo.

Creu Hanes: Archwilo Eich Archif 2017 yn Archifdy Ceredigion

Awduron, artistiaid, gweuwyr a chogyddion, cyfansoddwyr, crochenwyr, ffotograffwyr... pawb sy'n creu!

Fe'ch gwahoddwn i greu rhywbeth yn ymateb i'r casgliadau yn Archifdy Ceredigion.

Yn Archifdy Ceredigion rydyn ni'n cadw gwerth mwy na phum can mlynedd o hanes Ceredigion. Cymaint o fywydau, cymaint o leoedd, cymaint o ddigwyddiadau, oll wedi'u cofnodi mewn gair a llun. Hoffem ddatlu wythnos Archwilio Eich Archif eleni gyda phobl o bob cwr o'r sir a'r tu hwnt, pobl sydd wedi ymchwilio i'r casgliadau, eu mwynhau ac ymateb iddynt, a chreu rhywbeth newydd eu hunain.

Nid cystadleuaeth mo hon, ac mae croeso i bawb roi cynnig arni, beth bynnag eu gallu a'u hoedran. P'un a ydych chi'n wneuthurw'r proffesiynol neu erioed wedi gwneud dim byd fel hyn o'r blaen, fe fyddai'n wych pe gallech chi ymuno â ni. Wrth i chi ymchwilio, efallai y daw'r awen i gyfansoddi cerdd neu stori fer, neu efallai y darllenwch chi ryweth sy'n troi'n gân yn eich meddwl, neu gael ysbrydoliaeth i roi cynnig ar rysâit o ganrif arall.

Rydyn ni wedi rhoi rhywfaint o ddogfennau a lluniau ar ein blog <http://archifdyceredigion.wordpress.com/AEA2017> i roi syniad am yr amrywiaeth sydd yma i'ch ysbrydoli – ond cofiwch fod llawer mwy na'r rhain, er mor rhyfeddol ydyn nhw. Ewch i bori drwy ein catalogau ar-lein neu drwy waith ein blogwyr bendigedig, galwch heibio'r Archifdy i weld y dogfennau'r ydych chi wedi'u dewis.

Mae angen i chi greu rhywbeth erbyn 18 Tachwedd, sef dechrau wythnos Archwiliwch Eich Archif. Yn ystod yr wythnos fe gewch chi wahoddiad i ddigwyddiad yn Archifdy Ceredigion lle gallwch arddangos neu berfformio'ch gwaith o flaen cynulleidfia. Fe fydd yno de a chacennau, wrth gwrs, yn unol â thraddodiad Sir Aberteifi.

Am fwy o wybodaeth, ewch i <http://www.archifdy-ceredigion.org.uk>
Archifdy Ceredigion, Hen Neuadd y Dref, Maes y Frenhines, Aberystwyth SY23 2EB

Ffôn: (01970) 633697 E-bost archives@ceredigion.gov.uk



Plant ac athrawon, Ysgol Cellan, 1938. Cofio rhywun? Cysylltwch â ni!

Plant ac athrawon, Ysgol Cellan, 1938. Cofio rhywun? Cysylltwch â ni!

CYMRAG

Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Nid yw'r golygydd o
reidrwdd yn cytuno ag
unrhyw farn
yn y papur hwn.



HYDREF

5 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
 6 Sioe Ffasiynau Ysgol Feithrin Carreg Hirfaen yn Neuadd Coedmor.
 7 Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. enwaulleoedd@gmail.com
 9 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes, Llanwnnen am 7.00y.h. Parchedig Eirian Wyn Lewis yn pregethu.
 9 Merched y Wawr Llambled - 'Ambiwlans Awyr Cymru' yn Festri Shiloh am 7:30y.h.
 10 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw am 7.00y.h. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Huw George, Sir Benfro.
 10 Cyfarfod blynyddol pwyllgor pentref Llanybydder yn Tanygraig am 7.00y.h.
 11 Oedfa Ddiolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Disgwylir y Parchedig Wyn Thomas i bregethu. Croeso cynnes i bawb.
 11 Cwrdd Diolchgarwch CFFI Cwmann a Bethel Parc-y-rhos gyda'r Parch Huw George yng Nghapel Bethel am 7 o'r gloch.
 13 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.30y.h.
 14 Diwrnod Hwyl Llyfrgell Llanbed ar y thema Môr Ladron 10y.b. - 12y.p.
 14 Gŵyl Ddawns yn Neuadd Fictoria Llanbed 7 - 10y.h.
 15 Cwrdd Diolchgarwch yr Ifanc yn Noddfa am 5.00y.p.
 16 Gwasanaeth Diolchgarwch CFFI Llanwenog, Capel Brynteg.
 16 Cymdeithas Cerdd Llambled yn cyflwyo Solem String Quartet yn Hen Neuadd Coleg Llambled am 7.30y.h.
 17 Cymdeithas Hanes Llambled yn Ystafell 1, Neuadd Celfyddydau'r Brifysgol am 7.30y.h. Siaradwr - Mr David Cooper, "Tŵr Llundain".
 17 Cwrdd Diolchgarwch Brynteg am 7 yh, pan fydd y Parch. Carys Ann yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
 19 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
 20 Noson yng nghwmni Bois y Rhedyn yn y Llew Du Llanybydder am 8.00y.h. Tocyn £6. Elw tuag at Diabetes UK Cymru.
 20-22 Taith 'Teilwng yw'r Oen' i Lundain. Trefnir penwythnos i gefnogwyr i fynychu'r perfformiad yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Cysyllter gydag un o aelodau'r corau am fanylion neu â Theatr Felinfach.
 21 Pobl Cwrtnewydd People - cwis yn Festri Capel Seion am 7yh. Mynediad £2 gan gynnwys lluniaeth.
 21 Noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Tocynnau yn £10 ar gael o'r Gwesty neu drwy ffonio Megan ar 01970 612768. Elw tuag at Beiciau Gwaed Cymru.
 22 Oedfa Ennyd Gobaith, Eglwys San Pedr Llambled am 2.00y.p.
 24 Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 yh. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.
 24 Cynghrair Ward Llanwenog 'Hanes Hen Dafarndai Llambled' yng Nghefnhafod, Gorsgoch am 8.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
 28 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Mair Williams, 01558 650292.
 28 Noson Calan Gaeaf yn y Llew Du, Llanybydder am 6.00y.h.

TACHWEDD

1 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso i bawb.
 2 a 4 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
 3 Noson Tân Gwyllt yn y Llew Du Llanybydder am 6.00y.h.
 3 Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbed yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda Ifan Jones Evans. Tocynnau oddi wrth Ioan Williams 422 370.
 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca, 1.30yp, gyda Melda Grantham, Capel Dewi yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
 11 Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
 11 Memphis Belle yn y Llew Du, Llanybydder am 8.00y.h. Bydd elw'r noson yn mynd at y Cylch Meithrin. Tocynnau yn £5.00.
 13 Merched y Wawr Llambled - Cinio Blynyddol yn Llanina.
 15 Merched y Wawr Llambled - 'Mewn cymeriad - Kate Roberts' yn Festri Shiloh am 7:30y.h.
 18 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Venue Cymru, Llandudno.
 19 Cerddoriaeth The Goledd Geckos yn Neuadd Llanfair Clydolau 8y.h.
 24 Tip-It yn Festri Capel-y-Cwm, Cwmsychpant.
 24-25 Ffair Grefftau Flynyddol yn Neuadd Pumsaint o 10yb-4yh. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru. Croeso cynnes i bawb.

RHAGFYR

2 Ffair Nadolig Cylch Meithrin ac Ysgol Llanllwni am 10.00y.b.
 2 Ffair Nadolig Llanybydder am 4y.p.
 3 Cymanfa Garolau'r Urdd yn Llambled am 5.00. Lleoliad i'w gadarnhau.
 9-16 Panto Theatr Felinfach.
 11 Merched y Wawr Llambled, Meinir Wyn Edwards, golygydd Y Lolfa.
 17 Cymanfa Garolau Capel Brynhafod am 7.30.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Elaine a Ron Coombes, Penlanmedd ar farwolaeth mam Elaine a hithau yn ei naw degau. Roedd ei mam yn enedigol o dde Cymru ond wedi byw yn lleol ers sawl blwyddyn bellach. Roedd wedi treulio y blynyddoedd diwethaf yng nghartref yr henoed Allt y Mynydd lle y bu farw. Bendith ar y teulu oll.

Cwrdd Diolchgarwch Capel Mair

Cawsom wasanaeth bendithiol iawn yng nghofal y Parch. Alun Wyn Dafis, gweinidog Brondeifi, Llanbed. Daeth cynulleidfâ niferus ynghyd yn cynnwys sawl person di-Gymraeg. Gwnaeth Alun Wyn sylweddoli hyn ac fe ddefnyddiodd dipyn o Saesneg er mwyn iddynt deimlo bod croeso iddynt. Cyflwynwyd y gweinidog gan Ian Evans, Esgairman a'r un pryd croesawodd bawb i'r oedfa. Mrs Aerwen Griffiths oedd wrth yr organ a diolch iddi am ei gwasanaeth Hi hefyd wnaeth y trefniadau blodau prydferth. Roedd naws hyfryd i'w deimlo trwy gydol y gwasanaeth.

Ymddeoliad

Hoffem sôn am ymddeoliad Debora Jones, Llanfair Fach sydd newydd ymddeol o'r gwaith o ddysgu Cymraeg fel ail iaith i nifer fawr o bobol dros gyfnod o 17 o flynyddoedd. Mae'n siŵr fod llawer iawn o bobol wedi elwa o'i gwersi. Diolch yn fawr, Debora a dymunwn i chwi ymddeoliad hapus.

Bowlio.

Cafwyd noson hyfryd o chwarae bowls a chymdeithasu pan aeth grŵp o Lanfair draw i chwarae i Langeitho. Llangeitho oedd yr enillwyr y tro yma. Rydym yn gobeithio trefnu noson o fowlio yn Llanfair iddynt yn fuan. Diolch i Al a Dilwen am drefnu'r noson a diolch i ferched Llangeitho am y wledd o fwyd roeddynt wedi ei baratoi i ni. Mae pawb yn edrych mlan at y gêm nesa.

Ysgol Bro Pedr



Campws Iau

Diolch i bawb a fu'n paratoi'r plant ar gyfer cystadlaethau Sioe ac Eisteddfod Llambled. Sioe Llambled 1af - Tia Gilbert - arlunio, 1af, Darcey Lambert - llawysgrifen, 1af Katie Little - cynllunio bathodyn, 1af Kevin Czaia - llawysgrifen, 2ail - Hari Morgan - llawysgrifen, 2ail Tia Thomas - cynllunio bathodyn, 2ail Scarlet Read Jones llawysgrifen, 2ail Molly Williams arlunio, 3ydd - Cece Botu Lewis arlunio, 3ydd Sion Morgan - arlunio, 3ydd Violet Douglas llawysgrifen, 3ydd Charlie Condon cynllunio bathodyn, 3ydd Hunor Hamvas - llawysgrifen.

Eisteddfod Llambled Celf Dylunio a Thechnoleg CS - 1af Fflur Meredith, 3ydd Aalia Spooner, Dylunio a Thechnoleg CA2 - 1af Lola Jones, Gemwaith 1af Ifan Meredith, 2ail Fflur Meredith, 3ydd Ifan Meredith, Celf Cyfrifiadurol - 1af Regan Jones, 2ail Cerys Angharad Jones, 3ydd Oliver Stevens, Creu cerdyn cynradd - 1af Brynmor Gibbons, 2ail Holly Strain, 3ydd Natasha Cowles, Arlunio 3 a 4 - 1af Cerys Angharad Jones, 2ail Cerys Angharad Jones, 3ydd Tia Thomas, Arlunio 5 a 6 - 2ail Evie Mc Kay, 3ydd Tia Deacon Jones, Llawysgrifen - 2ail Tilly Killic, 3ydd Cerys Angharad Jones, Penwisg - 3ydd Megan Morris, Collage - 2ail Cerys Angharad Jones, Ffotograffiaeth - 1af Cerys Angharad Jones. Cwpan i'r unigolyn uchaf ei marciau yn y campws cynradd - Cerys Angharad Jones a £50 i'r ysgol gynradd uchaf ei marciau i Ysgol Bro Pedr. Storiâu bl 5 a 6 1af Niah Bouvet, 2ail Ffion Davies, 3ydd Rhun Davies. Cystadlaethau llwyfan - Llongyfarchiadau i'r disgyblion i gyd a fu'n cystadlu'n unigol dros y penwythnos yn llefaru, canu ac yn canu offerynnau gan ennill llw o wobrau: Fflur Meredith, Ffion Davies, Ifan Meredith, Niah Bouvet, Megan Morris. Hefyd i barti llefaru'r ysgol - 2ail a diolch i Dr Delyth Jones am eu hyfforddi.

Cafwyd gwasanaeth a neges bwrpasol iawn ynglŷn â rhannu gan Mr Patterson ar ddechrau'r tymor a diolch iddo am roi o'i amser i ddod atom. Bu plant y dosbarth derbyn yn casglu afalau o'r ardd wyllt a diolch i Mrs Pink am goginio crymbl blasus gyda'r plant. Daeth Sioned o gwmni Sustrans i wneud cyflwyniad i ddisgyblion yr adran iau ar bwysigrwydd cerdded a beicio i'r ysgol ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi dros y dair blynedd nesaf wrth i ni godi ymwybyddiaeth y plant am bwysigrwydd cadw'n heini. Cynhaliwyd bore o werthiant cacennau llwyddiannus iawn yn yr ysgol a chodwyd dros £326 tug at Tŷ Hafan. Bydd y swm yma yn mynd tuag at gasgliad Robyn Jones, disgybl ym mlwyddyn 3 sy'n cerdded yr Wyddfa ac yn casglu tuag at yr achos teilwng hwn. Diolch i'r holl rieni am gefnogi drwy goginio a phrynu cacennau. Bu nifer o ddisgyblion blynyddoedd 2 a 3 yn mwynhau cymryd rhan yn y Clwb Celf a Chwaraeon ar ôl ysgol a diolch i'r staff am roi o'u hamser.



Y Parchedig Huw Roberts yn cyflwyno blodau ar ran aelodau Capel Bethel Parc-y-rhos i ddau bâr sy'n dathlu priodas ddiemwnt: Avril ac Eric Williams, Y Fedw a Gwilym a Phillys Price, Brynderi.



Swyddogion Cffl Cwmann yn cyflwyno anrheg i Eirios Thomas am ei gwasanaeth i'r mudiad yn Sir Gâr dros y blynyddoedd, mewn Te Prynhawn a gynhaliwyd yn Neuadd Sant Iago Cwmann.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Noleen a David John, Wernfraith ar ddathlu priodas arian ar y 29ain Medi. Dymuniadau gorau oddi wrth Myfanwy ac Aneurin.

Ffair Ram

Cynhaliwyd y 27ain Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar y 9fed Medi. Cafwyd diwrnod cyfnewidiol o ran tywydd a chefnogaeth dda yn ystod y dydd.

Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn ystod y dydd o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Cyril Davies, Brynteg, Llanbed. Cafwyd araith bwrpasol gan Cyril yn pwysleisio gwerth sioeau lleol.

Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth yn yr adrannau isod ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau. Dyma'r ail flwyddyn lle trefnwyd Taith Dractorau yn ystod y bore.

Gwerthwyd y cynnyrch ar ddiwedd y dydd gan Roy Roach a chodwyd swm sylweddol gyda chyfran o'r elw yn mynd tuag at Grŵp Cefnogi Cancr y Brostad Gorllewin Cymru.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm:- Gareth Russell; Llysiau a Ffrwythau:- Ann Davies; Blodau:- Muriel Mc Mullan; Cynnyrch y Gegin:- Joyce Williams; Cyffeithiau a Gwinoedd:- Pat Jones; Ysgol Feithrin:- Elis Jones; Dosbarth Derbyn:- Milo Forde; Blwyddyn 1 a 2:- Deina Evans; Blwyddyn 3 a 4:- Ellie Gregson; Blwyddyn 5 a 6:- Casi Gregson; Ysgol Uwchradd:- Mari Lewis; Arlunwaith:- Meinir Evans; Ffotograffiaeth:- Trystan Williams; Crefftiau Cefn Gwlad:- Gwyn Williams; Adran Grefftiau:- Meinir Evans; Defaid Penfrith:- Eiddig Jones; Defaid Mynydd Cymreig:- Price, Gelliwrol; Defaid Mynydd Arall:- Tomos Jones, Felindre; Defaid Texel:- Russell Coedeiddig; Unrhyw Fridiau Llawn Gwlad:- Price Gelliwrol; Wyn Tew:- Roberts, Brynview;

Cyflwynwyd y cwpanau

canlynol: Llysiau a Ffrwythau, er cof am Martin Jones Felindre - Ann Davies; Pwyntiau Uchaf yn y Cynnyrch Cegin a Cyffeithiau a Gwinoedd, Cwpan sialens Bronwydd - Pat Jones, Felindre; Adran Grefftiau, Cwpan sialens er cof am Dilys Godfrey - Meinir Evans; Adran y Defaid, Cwpan Sialens Eric Harries am y ddafad neu'r oen fenyw orau - Price, Gelliwrol; Cwpan Sialens Ram Inn am yr hwrdd neu'r oen hwrdd gorau - Russell, Coedeiddig; Cwpan Sialens Dalgetty am yr anifail gorau - Price, Gelliwrol; Cwpan Sialens Teulu Hendai am y grŵp gorau o dri - Price, Gelliwrol; Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth. Gellir gweld lluniau ar wefan www.ffairram.btck.co.uk

Sefydliad y Merched Coedmor

Taith i Swyddfa Tinopolis yn Llanelli oedd ein cyfarfod ym mis Gorffennaf ar ddydd Mercher y Sed. Gadael Heol Hathren am hanner awr wedi unarddeg a chyrraedd y swyddfa tua un o'r gloch. Cawsom groeso cynnes wrth fynd i'r swyddfa gan Sylvia, yna trosglwyddodd ran gyntaf y daith i Huw Williams. Wrth fynd ymlaen gwelsom stafell ddillad 'Huw Fash' ac yna ymlaen i'r stafell golur, ac wrth gwrs y stafell dywydd. Braff oedd gweld Rhodri Gomer ac Yvonne Evans ar ein taith. Ar ôl cwpaned a bisgedi, cawsom ein tywys ar ran ola'r daith gan Sylvia. Dywedodd bod cant o bobl yn gweithio yno. Wrth ymadael diolchwyd yn fawr iawn i Sylvia a'r tîm am brynhawn diddorol tu hwnt gan Morfudd. Ymlaen wedyn i Drostre a chael cyfle i wneud ychydig o siopa. Gadael Trostre am hanner awr wedi pump pan ddywedodd Mary y byddem yn teithio nôl trwy Borth Tywyn i weld y blodau hyfryd. Doedd neb yn meddwl y byddem yn cael swper yno. Aros yng Ngwesty Costal Pilot a chael croeso twymgalon gan Emyr, mab Mary a

Wyn, ac Anne Marie.

Cafwyd cyfarfod busnes byr cyn cael y bwyd. Diolchodd Mary i Gwyneth am drefnu'r ymweliad â Tinopolis. Llongyfarchwyd Mair Stevens ar gael ei hethol yn Llywydd Cymru S.Y.M. Derbyniwyd gwahoddiad gan S.Y.M. Castell Newydd i ymuno â nhw i ddathlu 90 oed.

Ar ôl cael pryd o fwyd blasus diolchodd Morfudd am y croeso a'r wledd. Aeth pawb adre wedi cael prynhawn braff iawn.

Croesawodd ein llywydd Mary bawb yn ôl i gyfarfod mis Medi ar ôl seibiant dros yr haf. Aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd sef Gwenllian Jones, athrawes Addysg Gorfforol yn Ysgol Henry Richard, Tregaron. Merch Swyddfa Bost Felinfach yw Gwenllian ac mae'n brysur iawn yn chwarae hoci gyda thîm Llanybydder a phêl-droed gyda Felinfach.

Cafwyd noson ysgafn a hwylus ganddi wrth i bawb wneud ychydig o ymarfer corff er mwyn cael cryfhau'r cyhyrau. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Gwyneth. Ar ôl cwpaned wedi ei baratoi gan Gwyneth a Iona, cafwyd cyfarfod busnes.

Bu Gwyneth a Mary yn stiwardio yn y Sioe Frenhinol ond roedden nhw'n siomedig nad oedd llawer o ddim ganddynt i'w ddangos. Bu Mary ac Elma yn cerdded yn Ystradfellte ddydd Sadwrn, Medi 2il. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod bwyd Ffair Ram. Enillwyd y raffl gan Joyce.

Enillwyr Mis Medi y Clwb 125

1. Muriel Davies, 2. Nant-Y-Glyn, Cwmann, 93. 2. Elizabeth Warmington, Falkland, Bryn Rd, Llanbedd 85. 3. Nerys Beaumont, Trefin, Cwmann, 27. 4. Von Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 109. 5. Sarah Humphreys Jones, Frongelli, Alltyblacca, 81. 6. Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 56. 7. Gavin & Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73.

Cymdeithas Bethel Parcyrhos

Rhoddyd y Gymdeithas mewn gêr ar gyfer y tymor newydd dan lywyddiaeth Dylan Lewis drwy ymweld ag Amgueddfa Ger-y-nant, Talgarreg. Cawsom ein syfrdanu wrth weld casgliad o hen greiriau o ganol y ganrif ddiwethaf. Noson a ddaeth ag atgofion am ddefnyddio'r hen fuddai, ffwrnai paraffin a chofio llawer o'r hen enwau ar nwyddau masnachol a hen gwmnïau. Diolchwyd i Peter a Pam am ein tywys o amgylch gan Dylan. Gorffennwyd y noson gyda bwffe ardderchog gan Delyth yn Y Pantri, Llanbedd.

Mis nesaf ein gwŕ gwadd fydd y Brawd Wish Gadula.

Cffl Cwmann

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur iawn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann gyda rhywbeth at ddant pawb. Dechreuwyd y tymor gyda noson o chwaraeon yng Nghanolfan Cwmann a hyfryd oedd cael croesawu'r aelodau newydd i'n plith. Cafwyd llawer o sbort a sbri a diolch i'r arweinyddion am drefnu.

Mwynhau noson wedyn yn y Lazerzone yng Nghaerfyrddin ac yna galw nol yn Mc Donalds am fyrbryd. Diolch i bawb a fu'n cludo a threfnu. Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn paratoi'n ddiwyd tuag at yr Eisteddfod a gynhelir ganol mis Hydref.

Daeth tyrfa fawr ynghyd ar brynhawn Sul Medi 24 i ddiolch i Eirios Thomas, cyn aelod o'r clwb, am ei gwaith diflino dros fudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr am dros ddeugain mlynedd. Roedd y dyrfa niferus yn dyst i'w phoblogrwydd a'r parch sydd iddi yn ei chymuned. Cafwyd gwledd o ddanteithion i ddathlu'r achlysur wedi eu paratoi gan Mrs Delyth Jones a'r teulu a chyflwynwyd rhodd i Eirios ar ran y clwb gan Rhian. Dymunwn fel aelodau ymddeoliad hapus i

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Cwmann

Eirios ac rwy'n siŵr y byddwn
yn parhau i'w gweld yn aml yng
ngweithgareddau'r clwb yn y
dyfodol. Diolch yn fawr i Delyth
am baratoi'r bwyd, i bawb a fu'n
cynorthwyo ac i bawb a oedd yn
bresennol am wneud yr achlysur yn
un i'w gofio.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Elen Powell,
Felindre Uchaf ar gael ei phenodi
yn Bennaeth Ysgol Peniel ger
Caerfyrddin. Bydd yn dechrau yno
ym mis Ionawr 2018. Pob lwc yn dy
swydd newydd.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Phyllis
Price, Brynderi yn dilyn anffawd ac i
bawb arall sydd wedi bod yn teimlo
yn anhwylyd yn ddiweddar. Pob
dymuniad da.


Priodas Ddiemwnt

Dathlodd Gwilym a Phyllis Price,
Brynderi ac Eric ac Avril Williams,
Y Fedw eu pen-blwydd Priodas
Ddiemwnt yn ystod y mis. Gobeithio
eich bod wedi mwynhau y dathlu.
Pob dymuniad da a hir oes a iechyd.

Enillwyr Clwb 225

Mis Medi: 1. Dafydd Jones, Bara
Gwalia, Llanybydder, 111. 2. Dawn
Ling, Glynbedw, Cwmann, 79. 3.
Geoff Evans, Llysycoed, Cwmann,
63. 4. Neville ac Eleanor Davies,
Pleasant View, Llambled, 128; 5.
Danny & Ann Davies, Brynteify,
Cwmann, 80. 6. John Davies, Y
Ddol, Cellan, Llambled, 99. 7. Mr
a Mrs Aled Roberts, Cae'ronnen,
Cwmann, 26.

Pencampwr Golff




Mae Bryn Thomas, Ty Hathren
sy'n aelod o Glwb Golff Cilgwyn
yn Bencampwr Golff Cymru dan
16 oed, ac ynatau ond yn 14 yn
dilyn ei fuddugoliaeth ddiweddar
yng Nghlwb Golff Cradoc,
Aberhonddu.

Bryn oedd capten Carfan Cymru
dan 15 yn erbyn Surry yn ddiweddar
hefyd lle enillodd Bryn ei ddwy
gêm. Roedd y canlyniad yn gyfartal,
6 yr un.



Llywyddion Ffair Ram - Cyril a Rosmary Davies gydag enillwyr y dydd.



Eira a Tommy Price, Gelliwrol a'r beirniaid defaid gyda'r anifal gorau yn Ffair Ram.



Llongyfarchiadau i Gwenllian Llwyd Jones (canol), Croesor ar gael ei
dewis yn rhan o garfan pêl droed merched rhanbarthol De Cymru, lle mae'n
gorfod teithio i Gaerdydd yn wythnosol er mwyn hyfforddi gyda'r garfan.
Yn ogystal â hyn, mae'n aelod o ganolfan berfformio pêl-droed Gorllewin
Cymru a chlwb Sêr Caerfyrddin, ynghyd a dwy ferch leol arall Jessica Jones
a Lowri Rowcliffe, ac mae'r tîm yn cael eu noddi eleni gan Teify Forge Ltd.
Dymuniadau gorau i ti Gwenllian.

Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Daeth aelodau'r Côr, yn eu gwisgoedd gorau i'r ymarfer nos Fercher, y 6ed
o Fedi hanner awr ynghynt am ddau rheswm.

Y rheswm cyntaf oedd bod trefnwyr yr Ŵyl Corau Meibion, sydd wedi ei
threfnu ar gyfer mis Mai 2018 yn Neuadd Albert yn Llundain, am gael llun
o'r Côr yn edrych ar ei orau.

Yr ail reswm, a'r pwysicaf efallai, oedd bod y côr yn cyflwyno £500 yr
un i ddau achos da, sef Cangen Llanybydder a'r Cylch o'r elusen Ymchwil
Cancr ac Ysgol Gymraeg Esquel, Patgaonia. Codwyd yr arian mewn noson o
'Hufen a Mefus' yng Nghlwb Bowllo Llambled rai wythnosau yn ôl.

Daeth y Cyng. Sir Ieuan Davies i dderbyn y siec ar ran Cangen
Llanybydder o Ymchwil Cancr a daeth Mrs Hazel Charles Thomas ar ran
Ysgol Gymraeg Esquel. Ceir llun y cyflwyno sicciau ar dudalen 23.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Llongyfarchiadau i Tomasz Nowak a Connor Smith ar gael eu dewis yn Llysgenhadon Efydd yr ysgol am y flwyddyn i ddod a phob lwc gyda'r gwaith o drefnu a chynnal gweithgareddau ymarfer corff i'r plant.

Diolch i Gwmni Statkraft am eu rhodd ariannol tuag at brynu Touchscreen i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Cawsom wythnos lwyddiannus iawn yn lansio'r Siarter Iaith ddechrau'r tymor. Buom yn edrych a thrafod amrywiaeth o storïau, yn gwisgo fel cymeriad mewn stori, cael cwis ar Gymru, canu, dawnsio gwerin a choginio. Buom am drip i Sain Ffagan gan gael diwrnod addysgiadol yn mynd o amgylch yr hen adeiladau. I orffen yr wythnos cynhalion ni fore coffi lle daeth nifer o rieni a ffrindiau i ymuno yn y dathlu. Diolch i Mrs Meinir Evans o'r Fenter Iaith am ddod i siarad â'r rhieni am bwysigrwydd dysgu a defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Diolch iddi hefyd am drefnu gweithgareddau crefft i'r plant. Diolch, Meinir, ac i bawb am eu cefnogaeth.

Daeth Mr Aled Vaughan Owen i'r ysgol i weithio gyda phlant yr Adran Iau. Cawsant nifer o weithgareddau er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o ynni.

Daeth Elinor o'r Frigad Dân atom i roi sesiynau am bwysigrwydd cael larwm tân a pha mor beryglus yw tân. Gwnaeth hynny trwy stori, lluniau a thrafodaeth. Cawsom hefyd gyfle i wisgo gwisg diffoddwr tân.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol- Mis Medi - 1af - £10 – Dewi Davies, Glynteg, Llanybydder; 2ail - £5 – Nia Evans, Maes yr Onnen, Llanllwni; 3ydd - £5 – Doreen Davies, Dolwerdd, Gwyddgrug.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Capel Nonni nos Fercher, Hydref 11eg am 7.00y.h. Disgwylir y Parchedig Wyn Thomas i bregethu. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys St Luc

Clwb 100 mis Medi: 1af £15 - Meg Parry (74); 2il £10 - Gareth ac Elin Griffiths (85) a 3ydd £10 - Teulu Gwndwn (82). Diolch i bawb am gefnogi.

Mae'n cydymdeimlad yn fawr â theulu'r diweddar Mr. David Jones, gynt o Black Lion Llanybydder, sy wedi ei gladdu ym Mynwent Eglwys Sant Luc.

Pen-blwydd hapus iawn i Mrs. Sarah Jones Sarn Helen, sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 96 oed ar Fedi'r 27ain. Pob hwyl a iechyd i chi, Sarah.

Bu rhai o'r aelodau ar bererindod y

ddeoniaeth yn ddiweddar a cherdded yn ardal Cwmann. Derbyniol a blasus oedd y te yn y Neuadd ar ddiwedd y daith! Diolch yn fawr.

O fis Hydref ymlaen drwy'r gaeaf bydd gwasanaeth 2yp ar y 4ydd Sul yn cael ei gynnal yn y Neuadd.

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn cwrdd ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Ein thema yng Nghylch Meithrin Llanllwni am y tymor nesaf yw Dathliadau. Mae'r plant wedi mwynhau rhannu profiadau a lluniau ohonynt yn dathlu achlysuron gwahanol. Cafodd y plant lawer o hwyl yn dysgu am ben-blwyddi gan gynnwys cael parti pen-blwydd i Doti. Yn ystod y tymor bydd y plant yn cael cyfle i ddysgu a mwynhau profiadau sy'n ymwneud â'r Hydref, priodas, babi newydd, bedydd Diwali a Nadolig.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 9-11yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Ein hamserlen am y tymor nesaf: 05.10.17 Trip i weld y drysau tylwyth teg yn Aberaeron; 12.10.17 Crefft yr hydref; 19.10.17 Gweithgaredd Diwali; 26.10.17 Gweithgaredd Calan Gaeaf; 02.11.17 HANNER TYMOR; 09.11.17 Gweithgaredd tân gwyllt; 16.11.17 Plant mewn Angen; 23.11.17 Argraffu â llysiau; 30.11.17 Little M'zzz, Llanybydder; 07.12.17 Clai a dŵr; 14.12.17 Crefft Nadolig.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i Mr Tom Jones, 32 Bryndulais ar ddathlu ei ben-blwydd yn 85 oed yn ystod y mis.

Ymddiheuriad bod y canlynol heb ymddangos yn rhifyn Clonc mis Medi:

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â David a Lyn Jones a'u teuluoedd ar fawrolaeth Mrs Marina Jones, 9 Bryndulais.

Eisteddfod

Da iawn Alwena Mair a Gwenan Lloyd Owen am ennill yn Eisteddfod Talgarreg eleni.



Ddydd Sadwrn 19eg o Awst fe wnaeth criw o Seiclwyr y Talardd yn Llanllwni seiclo 84 milltir, gan ddechrau yn y Talardd ac yna ymlaen i Aberystwyth cyn dod yn ôl i'r Talardd yn y nos. Bwriad a llwyddiant y daith oedd codi arian ar gyfer 'Golau' sef Mudiad Cancer Ysbyty Singleton, Abertawe.



Plant Ysgol Llanllwni yn ystod eu Hwylthnos Cymru Cŵl er mwyn lansio Siarter Iaith.



LLEW DU, LLANYBYDDER

Noson yng nghwmni

BOIS Y RHEDYN

Cadeirydd - Cynghorydd Ieuan Davies

20 Hydref 2017 am 8 o'r gloch

Tocyn £6

ELW AT DIABETES UK CYMRU

Sefydliad Prydeinig y Galon
Cangen Llanybydder a Llambed

Noson Bingo

Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder

24 Hydref 2017 am 8 yh

Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon



Mrs Eluned Lewis yn torri'r gacen ar achlysur Oedfa Ddathlu 275 yn Aberduar, ynghyd â'r gweinidogion a'r swyddogion a gymerodd ran.

Gwobr Tad y Flwyddyn

Nos Wener 15fed o Fedi cynhaliodd Radio Ceredigion noson wobrwyo Arwyr Lleol yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert. Bu'n noson hwylus ac emosiynol wrth glywed storïau y rhai a enillodd wobrau.

Fe wnaeth Elain Fflur Williams, Llanybydder enwebu ei thad Emyr Williams, 52, sy'n byw yn Llanbedr erbyn hyn am y gystadleuaeth Tad Gorau'r Flwyddyn. Ysgrifennodd erthygl am ei fywyd dros y pedair blynedd diwethaf, a dyma hi.

"Dechreuodd Dad ddioddef a osteoarthritis nol yn 2013 a dyna pryd ddaeth diwedd i'w waith fel saer. Yn 2014 cafodd lawdriniaeth ar ei gluniau i ailosod y ddwy. Yn Ebrill 2015 cafodd laminectomi ar ei asgwrn cefn lle roedd rhaid torri'r esgyrn yn ei fertebra i ryddhau'r nerf clunol. Roedd Dad yn dal i ddioddef poen ar ôl cael y llawdriniaeth felly fe welodd arbenigwr yn Ysbyty Cabowen, Croesoswallt ond doedd y canlyniad ddim yn bositif. Ni chafodd y llawdriniaeth ei gwneud yn gywir, roedd risg rhy uchel wrth drio cywiro hynny a gallai arwain iddo fod mewn cadair olwyn am weddill ei fywyd. Mae'n rhaid iddo ddioddef y boen. Ym mis Awst cafodd lawfeddygaeth ar fys ei droed yn Ysbyty Llanelli. Yn y pedair blynedd diwethaf mae Dad wedi bod trwy lawer ac mae'n dal mewn poen bob dydd.

Yn Medi 2012 fe wnaeth Dad rywbeth anhygoel. Cafodd alwad ffôn o wasanaeth gwaed Cymru gyda newyddion gwych i ddweud ei fod yn gallu helpu dyn o'r enw Milton yng Nghnada sy'n dioddef o lewcemia. Roedd rhaid i Dad fynd nôl a mlaen i Bont-y-clun sawl gwaith am brofion gwaed, ac roedd 'match' o 99.999% rhyngddo fe a Milton. Roedd rhaid i Dad gael chwistrelliad yn ddyddiol yn ei fola i ysgogi ei 'stem cells.' Roedd yn broses hir. Yn Chwefror 2013 aeth i Ysbyty Casnewydd i wneud y cyfraniad. O fewn 24 awr roedd ei 'stem cells' yn cael eu hedfan mas i Ganada a Milton yn dechrau ar ei driniaeth. Ers hynny mae Dad a Milton wedi bod mewn cysylltiad

ar y ffôn a thrwy facebook. Cafodd newyddion arbennig llynedd – cafodd Milton ei ganlyniadau yn ôl ac mae'r cancer wedi mynd. Mae fy nhad i yn berson arbennig iawn ac yn arwr i mi."

Nid yn unig enillodd y tlws Tad Gorau'r Flwyddyn ond hefyd fe enillodd brif wobwr y noson, Gwobr Arwr y Flwyddyn, 2017. Mae Emyr wedi bod trwy lawer ac mae'r teulu'n ddiolchgar am bopeth y mae yn ei wneud. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Digwyddiadau

Ar y 10fed o Hydref bydd Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal cyfarfod blynyddol yn y Tanygraig am 7.00 o'r gloch. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

Bydd y Pwyllgor Pentref yn cynnal Noson Calan Gaeaf yn y Llew Du ar yr 28ain o Hydref am 6.00 o'r gloch.

Bydd y Pwyllgor Pentref yn cynnal Noson Tân Gwyllt yn y Llew Du ar y 3ydd o Dachwedd am 6.00 o'r gloch.

Bydd Memphis Belle yn y Llew Du ar yr 11eg o Dachwedd am 8.00 o'r gloch. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y Cylch Meithrin. Tocynnau yn £5.00.

Wyres fach

Yn ystod mis Medi daeth Noel a Linda Davies, Cadwyn Aur yn dat-cu a mam-gu unwaith eto, merch fach i Gary a Buddug yn Nebo.

Diolch

Dymuna Thelma Jones, Tegfryn, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a gafwyd ar adeg ei phen-blwydd yn 80ed ar Fedi'r 6ed. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Dathlu corffoli Eglwys Aberduar

Cafwyd amser hapus iawn yng nghapel Aberduar ddydd Sul 17 o Fedi 2017 gan ein bod wedi bod yn dathlu 275 o flynyddoedd ers corffoli yr eglwys, gyda'r capel yn llawn yn y prynhawn ac am chwech yr hwyr. Cynhaliwyd oedfa'r dathlu am ddau y

prynhawn gyda'r Parchg Jill Tomos, gweinidog presennol yr eglwys, yn llywyddu. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Dewi Davies, Glanafon yn darllen o'r ysgrifur a gweddi gan Hannilia Court. Ar ôl i Jill groesawu pawb, bu yn sôn am sefydlu eglwys Aberduar ac yna mynd ymlaen i gyflwyno pump o weinidogion sydd â chysylltiad agos iawn ag Aberduar. Y ddau cyntaf oedd y Parchedigion Eirian Lewis ac Aled Davies, dau o blant yr eglwys sydd wedi mynd i'r weinidogaeth, Eirian yn gwasanaethu yn Sir Benfro ac Aled yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Yna, y Parchg Owain Llyr Evans sydd yn weinidog yng Nghaerdydd, mab un o gyn-weinidogion Aberduar, y diweddar Byron Evans. Cafwyd hefyd atgofion dau o gyn-weinidogion Aberduar, y Parchg Olaf Davies sydd yn byw yn Sir Fôn ac yn weinidog ym Mangor a'r Parchg Wynn Vittle sydd wedi ymddeol erbyn hyn ond sydd yn dal i bregethu ar y Sul. Bu'r pump yn sôn am eu cysylltiadau ag Aberduar ac am amserau llon a lleddf. Fe wnaeth y gynulleidfa fwynhau eu sylwadau yn fawr iawn, awr a hanner i'w gofio am byth. Ar ddiwedd yr oedfa fe wnaeth y Parchg Jill Tomos ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu cyfraniad tuag at lwyddiant y dathlu. Rhwng y ddwy oedfa cafwyd te ardderchog wedi ei baratoi yn y festri gan y chwiorydd ac hefyd bu Dewi Davies, Glynteg yn arddangos lluniau o ddigwyddiadau yn Aberduar dros y pedwar ugain mlynedd diwethaf. Cafwyd casgliad tuag at Cymorth Cristnogol yn ystod yr oedfa. Ar ddiwedd yr oedfa torrwyd cacen y dathlu gan Eluned Lewis, aelod hyna Aberduar. Y gacen wedi ei gwneud ac yn rhodd gan Vicky Davies, Pistyllgwyn.

Am chwech yr hwyr, cynhaliwyd Cymanfa Ganu gyda'r brawd Emlyn Davies yn arwain a Rhiannon Lewis wrth yr organ gyda Cerys Lloyd yn llywyddu. Cafwyd darlleniad gan Lowri Gregson a gweddi gan Arwel Jenkins ar ddechrau'r gymanfa. Yn cymryd rhan bu plant Ysgol Gynradd Llanybydder, Côr Lleisiau'r Werin a Chôr Meibion Cwmann gyda Elonwy Davies yn eu harwain a Ceinwen Evans a Elonwy Huysmans yn cyfeilio. Cafwyd hefyd unawdau gan Manon Mai. Bu'n gymanfa hwyliog ac ysbrydoledig dros ben. Diolch i Emlyn, Rhiannon a Cerys, y corau, Manon, i'r plant i gyd ac i'r gynulleidfa luosog am wneud y noson yn gymaint llwyddiant. Edrychwn ymlaen i glywed y gymanfa ar Radio Cymru.

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor yr Eglwys Blwyfol Nos Lun 11eg o Fedi 2017 yn Festri'r Eglwys. Yn bresennol: Y Parch Suzy Bale; Susan Evans - Warden yr Eglwys; Beti Jacob; Avril Jones - Trysorydd; Heather Jones; Christine Rogers;

Eleri Thomas - Ysgrifenyddes a Val Wood - Warden y Ficer.

Cafwyd gweithgaredd i godi arian sef Taith Gerdded Noddedig ar Fynydd Pencarreg – Nos Wener 18fed o Awst 2017. Diolchwyd i bawb a oedd wedi cyfrannu at y digwyddiad gan gynnwys Heather Jones am godi swm anrhydeddus o £1,116.50. Y cyfanswm presennol yw £1,670 gan ddisgwyl, o bosibl, cyfraniadau pellach i fynd â'r swm dros £2,000. Diolch i'r Llew Du, Llanybydder am ddarparu swper blasus ar ôl y daith gerdded.

Enillwyr Clwb 100 mis Medi: 1af – Erin Thomas, Minffordd £15; 2ail – Emlyn Williams, Heol y Gaer £10; 3ydd – Gwyneth Williams, Heol y Gaer £5.

Cynhelir Gwasanaeth y Gair ar ddydd Sul 8fed o Hydref 2017 am 9.30am dan arweiniad Mrs Susan Evans gyda ffocws ar y Cynhaef. Croeso i bawb ymuno â ni.

Cesglir tiniau ac ati er budd y Banc Bwyd, Llanbedr Pont Steffan.

Trafodwyd unwaith yn rhagor atgyweirio to'r Festri a cheisio grant ar gyfer ei drwsio i gynnwys o bosibl cais am gyfleusterau dŵr a chyfleusterau cyhoeddus. Adroddwyd bod angen glanhau cafnau'r Eglwys cyn y gaeaf a cheisiwyd gwirfoddolwyr. Diolchwyd i Mr Eurus Davies a Mr Meurig Jacob am ymwneud â'r gwaith yn y gorffennol.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar ôl seibiant yr haf a chyffro'r Urddo yn y Genedlaethol, ail gydiwyd yn yr awenau canol Awst. Bu paratoi ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Aberduar ar Fedi 17eg i ddathlu 275 mlynedd o dystiolaeth yr achos yno. Ym mis Hydref byddwn yn canu yn eglwys Llanwenog gyda Sefydliad y Merched.

Clwb Clonc

Hydref

£25 rhif 45 :

Mrs Gwenda Davies,
Bwlchmawr, Brynteg, Llanybydder
£20 rhif 201 : Llion Herbert,
4 Cysgod y Coed, Cwmann.
£15 rhif 244 : Catrin Jones,
Talr Wen, Cwmsychpant.

£10 rhif 176 :

Mrs Gwenda George,
Ceric, Victoria Terrace, Llambod.

£10 rhif 3 :

Mrs Jennie Bracher,
Clyndu, Cwmann
£10 rhif 482 :

Mrs Elizabeth Warmington,
Falkland, Heol-y-Bryn, Llambod.
£5 rhif 363 : Aled Llŷr,
17 Latimer Road, Llandeilo.

Llanbedr Pont Steffan



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 11 Llambod am ennill twrnament Gary Pugh yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dechreuad gwych i'r tymor newydd!

Cymdeithas Hanes Llambod

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor 2017-18 ar y 19eg o fis Medi yn Hen Neuadd Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Mark Lucas, Curadur Amgueddfa Wlân Drefach Felindre oedd y siaradwr gwadd, un sydd wedi arbenigo ym maes cadwraeth ydiwydiant gwlân. Thema'r noson oedd 'Brethyn Llwyd', sef y brethyn a gynhyrchwyd yn ystod y Rhyfel Mawr er mwyn creu iwnniform unigryw i'r Gatradd Filwrol Gymreig. Syniad David Lloyd George pan yn Ganghellor y Trysorlys oedd hyn. Teimlai fod angen creu Byddin Gymreig, gan gredu y byddai cael iwnniform o'r brethyn llwyd, a swyddogion a bechgyn Cymraeg eu hiaith, yn creu ynddynt rhyw ymwybyddiaeth genedlaethol.

Roedd Cymru'n medru creu llawer iawn o wlân o'i diadelloedd niferus, a byddai'r galw am frethyn cartref a oedd wedi ei nyddu a'i wehyddu'n lleol yn hwb i'r diwydiant gwlân. Ym 1914 roedd melinau gwlân yn gyffredin iawn yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a thu hwnt; 217 ym 1922, ond dim ond 12 sydd erbyn heddiw.

Cysylltodd y Swyddfa Ryfel â'r melinau gwlân, gan orchymyn iddynt greu sampleri o frethyn llwyd, ac mae enghreifftiau o'r rhain yn dal ar gael. Mae'r lliwiau'n amrywio o lwydlas i lwyd, ac eraill â gwawr frownaid yn debyg i'r khaki. Rhaid oedd i bob melin ddewis un lliw i'w gynhyrchu, ond roedd hi'n anodd i'r melinau bach greu digon ac yr oedd y brethyn yma yn ddrytach i'w gynhyrchu na'r khaki cyffredin.

Cyfeiriodd Mark Lucas hefyd at hanes y cynnydd a'r dirywiad a fu yn y diwydiant gwlân yng Nghymru gan sôn am ambell i felin wlân llawer iawn mwy o faint yn Y Drenewydd a'r Trallwng, a'r broblem a gâi melinau gwlân i gyflogi digon o weithwyr pan oedd yr angen am eu cynnyrch ar ei uchaf ym 1917.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth,

17eg Hydref yn Ystafell 1, Neuadd y Celfyddydau, Coleg y Brifysgol. Sylwch ar y newid lleoliad. Y siaradwr gwadd fydd Mr. David Cooper yn son am ei waith yn Nhwr Llundain. Croeso i bawb.

Merched y Wawr

Croesawyd ni i'n noson agoriadol gan ein Llywydd newydd sef Morwen Thomas. Croesawodd aelod newydd atom sef Lynne Griffiths o Gwmsychbant.

Canwyd Cân y Mudiad i gyfeiliant Janet.

Cydymdeimlodd Morwen â Gwenda am ei phrofedigaeth lem. Diolchodd i aelodau a gymerodd ran yn y gwasanaeth fore Sul penwythnos y Dathlu ac i Elin a Gillian am drefnu'r gwasanaeth. Llongyfarchwyd y grŵp hefyd gan Enid, sef Llywydd y rhanbarth.

Cyflwynwyd ein siaradwr gan Morwen, sef Eirwen James o Lanio. Bu'n ddirprwy bennaeth yn Ysgol Llanddewi Brefi ac Ysgol Tregaron ac erbyn hyn mae'n Is gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddewi.

'Dros ysgwydd amser' oedd pwnc Eirwen a dechreuodd drwy sôn am ddau gerdyn pwysig iawn iddi, sef cerdyn y Llyfrgell Genedlaethol ac un y llyfrgell leol. Testun pennaf ei sgwrs oedd David Jones, Wern Isha. Cafwyd cais gan Ifor ap Glyn am fwy o wybodaeth am David Jones ac aeth Eirwen ati i dwrio. Trwy gyfrwng lluniau, hanesion a ffeithiau diddorol daeth hanes a chefnidir David Jones yn fyw i ni. Pwysleisiodd fod rhai eraill yn ogystal â Hedd Wyn wedi marw yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac un o'r rhain oedd David Jones a fu farw yn 47 mlwydd oed. Wrth gwrs, roedd Hedd Wyn yn cynrychioli carfan a tho o bobl a gollodd eu bywydau yn y rhyfel. Roedd 272,000 yn y lluoedd arfog a thros 100,000 yn siarad Cymraeg a cholliwyd 1 o bob 7. Ynghanol y pethau a arbedwyd ar ôl i David Jones golli ei fywyd roedd llyfr barddoniaeth a phabi coch wedi'i wasgu ynddo, carden hysbysu



Y Cyngorwr Ivor Williams, Llywydd Cangen Llanbed a Llanybydder o Sefydliad Prydeinig y Galon a Mr Gwynfor Lewis, W D Lewis a'i fab, Llanbed yn cyflwyno siec o £788.00 i swyddogion y gangen leol; Jennie Bracher, Ysgrifenyddes; Dave Smith, Cadeirydd ac Anne Davies, Trysorydd. Dyma'r arian a godwyd gan Ivor a Gwynfor wrth gymryd rhan yn Nhaith Feicio Sefydliad y Galon yn Abertawe yn ddiweddar. Dymuna'r ddau ddolch i bawb am eu cefnogaeth.

marwolaeth David a llythyrau i'w rieni o'r ffosydd. Y fam oedd yn eu darllen a'u hateb; efallai mai hi oedd yr un lythrennog.

Soniodd am ambell lythyr fel yr un a oedd yn diolch am y cacennau a'r ffowlyn gan Mary Llanio, gan ddweud wrthi am beidio ag anfon wyau! Soniodd hefyd am lythyr yn diolch am y postal orders yn galennig a llythyron eraill yn rhai teimladwy yn sôn am weld ffrindiau yn disgyn yn y rhyfel. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Eirwen ac fe'n heriodd i fynd ati i chwila a defnyddio'r holl eitemau sy i'w cael yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Diolchodd Morwen i Eirwen ac yna diolchodd Elma yn swyddogol iddi am drosglwyddo'r hanes mewn ffordd mor ddiddorol. Roedd wedi dysgu a chydweithio gyda hi yn Ysgol Tregaron. Diolchodd rhag blaen i Eryl, Gwyneth a Pat am y lluniaeth ysgafn. Enillwyd y raffl gan Pat.

Cyngerdd 50 Eisteddfod Llanbed

Yn rhan o ddathliadau Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan yn hanner cant oed eleni, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Theatr Felinfach nos Sadwrn 16 Medi. Roedd i'r cyngerdd flas lleol a chenedlaethol. Gwahoddwyd Delyth Medi i ddod â'i côr, Côr Merched Canna o Gaerdydd.

Mae Delyth Medi wrth gwrs yn un o deulu gweithgar Landre; ei thad a'i mam – Gerwyn a Mary Jones – yn gwirfoddoli ac yn swyddogion gyda'r eisteddfod ers blyneddau, a Dorian ei brawd yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr ŵyl oddi ar 2003.

Yn ogystal â'r côr, gwahoddwyd dau berfformiwr ifanc rhyfeddol o lwyddiannus, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell-Jones. Mae Steffan wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod Llanbed ac mewn eisteddfodau lleol

a chenedlaethol ar draws Cymru yn canu ac adrodd, ac mae Charlie yn feiolinydd amryddawn sydd wedi cael profiadau bythgofiadwy er taw ond deunaw oed yw e.

Mae'n ystrydeb dweud bod cyngherddau yn dda, yn llwyddiannus, ac yn gofiadwy. Ond yn yr achos hwn, mae'n wir dweud i bawb oedd yno werthfawrogi gwledd o gerddoriaeth gan artistiaid profiadol ac agos-atoch, ac iddi fod yn noson deilwng o'r dathliad.

Capel Brondeifi

Ar 3ydd o Fedi, cafwyd Cymundeb dan ofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Ioan Wyn Evans gymerodd y gwasanaeth y Sul canlynol, gyda'r gweinidog yn ôl wrth y llyw ar yr 17eg.

Ar y 24ain cynhaliwyd oedfa arbennig gan rai o bobl ifanc y capel. Lluniwyd y gwasanaeth gan Heini Thomas, Ffordd y Gogledd, ac yn cyfeilio roedd Meinir Evans. Yn cymryd rhan roedd y canlynol: Gwion a Mari Hefin, Elen Jones, Siôn Evans, Elin Williams, Lili Branwen, Ffion Davies, Gruffydd a Martha Thomas a Heini Thomas, Greenfield Terrace. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cwpaned ode a phice ar y maen yn y festri.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o ffyddloniaid y capel yn ddiweddar. Bu farw Alun Davies, Heddle, Stryd Newydd, yn sydyn yn 53 oed. Roedd yn un o blant yr Ysgol Sul a bu'n aelod brwd o'r capel. Mae bwlch mawr ar ei ôl ym Mrondeifi. Cydymdeimlwn gyda Gwenda a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar.

Ar nodyn gobeithiol, llongyfarchiadau mawr i Bryn Thomas, 15 oed o Gwmann, fu'n chwarae golff dros dîm Cymru dan 16 oed. Pob dymuniad da iddo gyda'r gamp i'r dyfodol.

Llanbedr Pont Steffan



Cwrdd Ieuenctid Brondeifi.

Noddfa

Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yn Noddfa nos Sul 15 Hydref am 5 o'r gloch yng ngofal yr Ysgol Sul. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Oedfa Ennyd Gobaith

Cynhelir Oedfa Ennyd Gobaith (Pause for Hope) yn Eglwys San Pedr ddydd Sul 22 Hydref am 2 o'r gloch.

Oedfa yw hon i estyn cysur a gobaith i bawb sydd wedi cael eu cyffwrdd gan y clefyd Cancr. Cynhelir oedfa debyg yn Lloegr yn flynyddol ers cyfnod maith ond dyma'r tro cyntaf erioed i'r digwyddiad arbennig hwn gael ei drefnu yng Nghymru.

Estynnir croeso cynnes i bawb o bob enwad a hefyd i'r rhai sydd ag ychydig neu ddim ffydd Gristnogol o gwbl.

Trefnir yr oedfa gan Steven Holmes o Ffarmers gyda chymorth yr eglwys lleol. Mae Jane, gwraig Steven, wedi dioddef o ganer yr ysgyfaint ers pan oedd ond yn 44 oed ac ers hynny bu'r ddau yn ymgyrchu'n ddifflino i godi ymwybyddiaeth am y clefyd.

Bydd yr oedfa yn ddwyieithog a chymerir rhan gan Gôr Ysgol Bro Pedr, y delynores Georgina Cornock-Evans ac eraill. Wedyn, bydd paned a chacen wedi eu paratoi yn

Neuadd yr Eglwys a bydd cyfle i sgwrsio ac i holi cynrychiolwyr grwpiau lleol ac elusennau cancr. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Am fanylion pellach plis e-bostiwch Steven ar stevenholmes@gmail.com

Adran yr Urdd

Hyfryd oedd gweld partïon yr adran yn cystadlu ac yn llwyddiannus yn Eisteddfod Llambled a diolch yn fawr i Elin, Rhiannon a Lois am hyfforddi a chyfeilio. Daeth nifer o aelodau newydd ynghyd ar ddechrau'r tymor a chafwyd noson o fingo a chwaraeon. Diolch i Anthea am drefnu'r bingo.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Noddfa nos Lun 25 Medi. Llywyddwyd gan ein gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac estynnodd groeso cynnes i'r Canon Andy Herrick a hefyd i bawb oedd wedi dod ynghyd i addoli gyda ni. Braff oedd gweld aelodau ifanc yr eglwys yn cyhoeddi'r emynau sef Sian Jones, Llinos Jones, Rob Phillips ac Alwyn Roberts. Cafwyd neges bwrpasol ac amserol iawn gan y Canon Andy Herrick yn seiliedig ar Iesu yn porthi'r pum mil. Diolchodd ein gweinidog iddo am ei gyfraniad gwerthfawr a thalodd deyrnged i bawb oedd wedi cymryd rhan ac i Janet am ei gwasanaeth wrth yr organ.

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Pobol China'n cofio dyn o ardal Clonc!

Be ydi'r berthynas rhwng cwpaned o goffi mewn dinas fawr yn China a fferm yn Ffaldybrenin?

Mi ddaw'r ateb ar drydydd Sul y mis yma yn y diweddara' o'r gyfres newydd o raglenni taith sydd gan gwmni teledu Unigryw a finnau ar S4C.

Dw i wedi bod yn gofyn cwestiwn arall i ambell un yn ddiweddar ... yn eu holi faint y maen nhw'n ei wybod am ddyn o'r enw Timothy Richard. Dim llawer ydi'r ymateb, fel rheol.

Ond mewn dinas anferth o fwy na phedair miliwn o bobol yng ngogledd China, mae yna gerflun ohono. A dyna ddod â gwlad fwy a poblog y byd a phentre' bychan yn ardal Clonc at ei gilydd.

Yn ôl rhai, Timothy Richard o Ffaldybrenin oedd y cenhadwr Cristnogol pwysica' i fynd i China erioed; ymhlith y Bedyddwyr, mae'n cael ei ystyried yn un o'u cenhadon mwya' hwythau. Ond roedd yn fwy na hynny, a dyna pam ei fod mor ddiddorol.

Waeth cyfadde', doedd Timothy Richard ddim llawer mwy nag enw i finnau nes dechrau gweithio ar y gyfres Dylan ar Daith. O Ffaldybrenin, ie, cenhadwr, ie, China, ie, ond fawr ddim byd arall wedyn.

Tristwch llawer o'r straeon yr yden ni'n eu dilyn yn y rhaglenni taith yma ydi fod y cymeriadau wedi cael eu hanghofio yng Nghymru ond yn cael eu parchu mewn gwledydd eraill. Ac mae'n bosib iawn mai Timothy Richard o fferm Tanyresgair ydi'r enghraifft amlyca' o hynny.

Mewn ysbyty mewn dinas o'r enw Qingzhou mae llun ohono fo oherwydd ei gyfraniad ar ddechrau dod â meddyginiaeth fodern i'r ardal honno; yn ninas anferth T'ai-yuan y mae'r cerflun – a sawl llun hefyd – i goffio mai ef oedd sylfaenydd y brifysgol fodern gynta' yn China i gyd.

Ond, i fi, y peth hynod am Timothy Richard oedd y ffordd yr oedd o wedi dod i ddeall pobol China, hyd yn oed eu crefyddau nhw, a derbyn bod yna wirioneddau mawr gan ddilynwyr rhai fel Bwda a Confucius hefyd.

Erbyn diwedd ei oes, roedd yn dadlau'r angen am ryw fath o lywodraeth ar gyfer y byd i gyd ac am gynghrair o'r holl grefyddau – breuddwyd ffŵl, falle, ond un y byddai ei hysbryd hi'n gwneud byd o les i ni heddiw.

Ac o sôn am drafferthion modern, Timothy Richard oedd un o'r ychydig ddynion gwyn i fentro bryd hynny – yn yr 1870au – i Corea a dod oddi yno'n fyw. Fel Gogledd Corea heddiw, roedd hi'n wlad gaeedig, yn troi ei chefn ar y byd.

Felly'r oedd China wedi bod hefyd a'r dyn ifanc o Ffaldybrenin ymhlith y cenhadon cynta' i fynd i mewn yno ar ôl ymrafael hir rhwng China a gwledydd y Gorllewin. (Fel mewn sawl rhan o'r byd mae effaith ymyrraeth ymerodraethau'r Gorllewin i'w deimlo hyd heddiw.)

Yn wahanol i'r rhan fwy a'r cenhadon cynnar eraill, mi fentrodd Timothy i gefn gwlad China pan oedd pobol leol yn edrych ar ddyn gwyn fel cymysgedd o glown a diafol. Hyd yn oed eleni, roedd gweld dyn gwyn moel efo sbectol yn ddigon i bobol rhai o'r trefi fynd i rowlio chwerthin, neu ofyn am gael tynnu selfi.

Mae yna elfen fodern yn y digwyddiad a newidiodd fywyd Timothy Richard hefyd, a newid ei ffordd o genhadu. O fewn ychydig flynyddoedd mi gafodd ei ddal ynghanol un o'r achosion gwaetha' o newyn a welodd y byd erioed.

Mi gafodd miliynau o bobol eu lladd yn y cyfnod hwnnw ac mae'r disgrifiadau yn ddychrynlyd, ond mi fyddai'r ffigwr yn uwch onibai am y Cymro. Yn ôl un gweithiwr elusen modern, mae'n bosib mai Timothy Richard oedd y cynta' i gynnal apêl ryngwladol i geisio ymladd trychineb naturiol o'r fath.

Dyna rai o'r rhesymau pam fod pobol yn China yn cofio Timothy Richard, a pham y dylen ninnau ei goffio hefyd.

A'r cwpaned o goffi? Mae'n ddrwg gen i chwarae tric sâl ond mi fydd rhaid i chi wyllo Dylan ar Daith, nos Sul Hydref 15, i gael yr ateb i hynny.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		2		3			1
	8				6	3	
				4		8	
9				1		2	4
			4	5			
1	2			6			7
	5		6				
	9	7				6	
8				9		1	

Swdocw Medi:

Llongyfarchiadau i
Eirlys Jones, Gellideg,
Llanbybydder, a diolch i
bawb arall am gystadlu:
Eurwyn Davies, Heol-
y-gaer, Llanbybydder;
Lynwen Davies, Tree Tops,
Llanbybydder; Eirian Jones,
Bro Teifi, Llanbybydder;
Richard Evans, Godre'r
Coed, Olmarch; Elonwy
Davies, Gwendraeth, Llanbybydder; Mair Williams,
Awelfa, New Inn; Glenys Davies, Rhydybont, Llanbybydder;
Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch; Christina Morgans,
Blaenfallen, Talsarn ac Elma Phillips, Llys Gwyn, Cellan.

3	1	2	8	4	9	5	7	6
7	9	6	5	2	1	3	8	4
8	5	4	7	6	3	1	2	9
5	3	8	6	1	7	4	9	2
9	2	1	3	8	4	7	6	5
4	6	7	2	9	5	8	3	1
1	7	9	4	3	6	2	5	8
6	8	5	1	7	2	9	4	3
2	4	3	9	5	8	6	1	7



Ras Beca

Yr oedd Ras Beca'n ddeugain oed eleni, ras fynydd o bum milltir trwy gors a thros fryn sydd ymhlith yr hynaf (os nad yr hynaf) yng ngorllewin Cymru. Bu rhedwyr Clwb Sarn Helen yn cystadlu'n llwyddiannus ynddi dros y blynyddoedd ac eleni eto aeth nifer ohonynt i Ffynnongroes yn y Preselau ar y 26ain o Awst. Buddugoliaeth Dee Jolly yn ras y menywod mewn 46 munud a 58 eiliad oedd yr uchafbwynt ond daeth gwobrau hefyd i Felipe Jones (yr ail redwr i orffen a'r 1af dros 40 oed mewn 38 munud a 56 eiliad,) i Dan Hooper (ail dros 40 mewn 40 munud a 59 eiliad,) i Glyn Price (y 1af dros 50 oed mewn 41 munud a 48 eiliad) ac i Sue Jenkins (ail dros 60 oed ymhlith y menywod.) Daeth Andrew Abbott (cyn-enillydd y ras hon), bellach yn byw yng Nghaint ond yn aelod o'r clwb, yn ôl i gystadlu a gorffen mewn 43 munud a 33 eiliad o flaen Tomos Morgans (45:19) Calvin Williams (52:24) a Huw Price (awr a 36 eiliad.) Mae'r achlysur hefyd yn cynnwys ras ieuenctid, sef Ras Goffa'r Mochyn Du, a daeth Mari Rees yn 3ydd ferch gyda Sion Wood, Charley Wood a Jac Rees hefyd yn cwblhau'r ras.

Mae ras heol 10 cilometr Caerdydd (3 Medi) ymhlith rasys blaenllaw'r Deyrnas Gyfunol ac eleni fe'i cynhaliwyd dros gwrw newydd, ychydig yn llai gwastad na chynt. Er hynny fe lwyddodd Dylan Lewis i redeg ei amser gorau am y pellter (35 munud a 5 eiliad) mewn ras a enillwyd gan Dewi Griffiths (28:49) o glwb Abertawe, yntau bellach ymhlith goreuon Prydain. Aelodau eraill o Glwb Sarn Helen i redeg yng Ngaerdydd oedd Nigel Davies (40:27) George Eadon (41:32) a Caryl Wyn Davies (42:12) ei hamser gorau hithau am 10 cilometr. (Yr oedd George hefyd wedi rhedeg y Bute Town Mile mewn 5 munud a 53 eiliad ar y 27ain o Awst, ac yr oedd Caryl wedi dod yn 5ed ym Mhencampwriaeth 10,000 metr ar y trac ar y 12fed o Awst.)

Mae lle i ddweud mai Hanner Marathon Llyn Efyrrwy yw ras ffordd gyflymaf Cymru dros y pellter hwn ac fe aeth rhai o aelodau'r clwb i Lanwddyn ar y 10fed o Fedi. Gwnaeth Glyn Price ymdrech ardderchog i orffen mewn 82 munud a 4 eiliad i'w roi'n 1af o blith y dynion dros 50 oed ac yn safle 51 allan o fwy na 1300 o redwyr. Cwblhawyd y ras hefyd gan David Thomas mewn amser parchus (100 munud a 38 eiliad.) Ymhlith y merched cafwyd ras gyffrous iawn rhwng Caryl Wyn Davies a Dee Jolly. Er i Caryl ennill y frwydr ar y tarmac i gyrraedd y llinell o flaen Dee (ill dwy'n 13eg a 14eg ferch i orffen) yr oedd amser electronig Dee (91:15) rhyw 12 eiliad yn gynt nag un Caryl gan fod Dee ymhellach yn ôl yn y dyrfa cyn croesi'r llinell gychwyn - agwedd fach ddiddorol ar y byd rasio cyfoes. Ar yr un dyddiad aeth Eleri Rivers (y ferch 1af) Tomos Morgans (3ydd yn ras y dynion) a Graham Penn i gynrychioli'r clwb yn ras ffordd 10 cilometr Castell Newydd Emlyn.

Yn dair oed eleni mae Hanner Marathon Pumsaint yn cyflym ennill poblogrwydd ymysg rhedwyr. Gweledigaeth Carwyn Davies, aelod o'r clwb a threfnydd y ras, yw'r cwrs llwybr heriol hwn trwy'r fforest rhwng Pumsaint a Chwrtycadno a daeth dros gant o redwyr yno ar yr 17eg Fedi. Am yr ail flwyddyn yn olynol, enillydd y ras gyfan oedd Sion Price yn yr amser campus o awr 24 munud a 14 eiliad, ychydig o flaen Ken Caulkett a Simon Hall a ddaethant yn ail a thrydydd yn nosbarth agored y dynion. Yn ras y merched fe ragorodd Dee Jolly unwaith eto gan ennill y dosbarth agored mewn awr 46 munud a 25 eiliad. Yr oedd presenoldeb cryf gan y clwb yn y ras gyda Dan Hooper (1.33.07) yn 1af a Kevin Hughes (1.40.46) yn 3ydd o'r dynion dros 40. Daeth Glyn Price (1.37.05) yn 1af o'r dynion dros 50, ac yn nosbarth y dynion dros 60 daeth Murray Kisbee (1.50.41) a Richard Marks (1.54.50) yn ail a thrydydd tu ôl i Mark Terry o glwb Trots Sanclêr. Hefyd ymhlith y merched daeth Dawn Kenwright (2.02.00) yn 1af dros 50 oed. Cafwyd perfformiadau da hefyd gan Huw Price (1.53.42) Calvin Williams (1.53.55) Tony Hall (1.55.23), David Thomas (2.00.20) a Mitchell Readwin (2.02.59.)



Ras y Mochyn Du

Yr un diwrnod i fyny yn Cumberland daeth Caryl Wyn Davies yn ail ymhlith y merched mewn ras 10 milltir fryniog (72 munud a 12 eiliad) a draw yng Nghaerwrangon cafodd George Eadon hwyl mewn ras 10 cilometr gan osod ei amser gorau am y pellter (40munud a 42 eiliad.)

Mae triathlon "Iron Man" Dinbych y Pysgod wedi datblygu'n atyniad sylweddol ac eleni eto ar y 9fed o Fedi yr oedd gan y Clwb gynrychiolydd a daeth Gareth Payne i ben â'r her unwaith eto gan gwblhau'r nofio, beicio a rhedeg mewn 11 awr a 19 munud i ddod yn 28ain yn ei ddosbarth. Yr oedd gan dref Llanbedd gynrychiolydd arall yn yr ornest hefyd, sef Elinor Morgan - llongyfarchiadau iddi hi ar orffen mewn 15 awr a 35 munud i ddod yn 19eg yn ei dosbarth.

Fel y ras gyfatebol yng Nghaerdydd mae ras ffordd 10 cilometr Abertawe gyda'r mwyaf blaenllaw ym Mhrydain ac yr oedd hi'n 37 oed eleni. Aeth Richard Marks yno gan ddod yn 3ydd o blith y dynion dros 60 mewn 39 munud a 35 eiliad, rhyw 4 eiliad o flaen Nigel Davies (y tro cyntaf i Nigel dorri deugain munud mewn ras 10 cilometr.) Cafwyd perfformiadau da hefyd gan David Thomas a Steven a Jane Holmes.

Mae marathon Eryri ar feddwl llawer i aelod ar hyn o bryd gyda'r ras flynyddol honno yn digwydd mis nesaf. Yn y broses o godi dros £5000 i Prostate Cancer UK fe redodd Nicola Davies farathon Wolverhampton ar y 3ydd o Fedi gyda dau ffrind o Lanbed, Bronwyn Coltman a Mariola Ponomarov - ymdrech glodwiw.

WINDY CORNER

Coaches

Teithiau Dydd 2017

02/12/17

Marchnad Nadolig Caerfaddon

09/12/17

Marchnad Nadolig Almaenaid Birmingham

16/12/17

Abertawe Panto Doilg, Siopa a Winter Wonderland

Am Fwy o Wybodaeth, Ffoniwch 01559 384 7

Pen-blwydd hapus

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Ray Davies, Peronne gan iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ychydig yn ôl. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur gyda pharti yn Neuadd Bro Fana ar nos Lun, y 10fed o Orffennaf, parti arall ar y bore dydd Mercher yn y Caffi Croeso yn Ffarmers, ac un arall ar y nos Fercher gyda Merched y Wawr ym Mhumsaint. Dyna sut mae dathlu!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lisa Jones, Sŵn y Nant gynt, ar ei llwyddiant yn yr arholiad piano gradd 4. Da iawn ti.

Ymddeol

Yn dilyn saith mlynedd o wasanaeth fel is-bostfeistr yn Ffarmers, mae Darrell Garwood bellach wedi ymddeol. Diolchwn i Darrell am flynyddoedd o waith, a thrwy hynny, am sicrhau gwasanaeth pwysig o fewn y gymuned leol. Diolch. Mae hefyd yn gyfle i groesawu is-bostfeistr newydd i'r swyddfa bost, sef Ceri Close. Mae Ceri a'i phriod wedi ymgartrefu yn Ffarmers ers rhai blynnyddoedd bellach, wedi symud i'r pentref o'r Bari. Dymunwn yn dda i Ceri yn ei swydd newydd.

Bethel, Cwm Pedol

Cynhaliwyd oedfa 'Croeso Ynghyd' eleni eto ym Methel ar yr 20fed o Awst gyda Dwynwen Teifi, Llandysul yn pregethu. Hyfryd oedd cael croesawu cyfeillion o gapeli'r ardal i ymuno gyda ni yn yr oedfa, ac wedyn yn Neuadd Bro Fana am farbeciw a chlonc. A diolch arbennig i Irfon a Julia, Ailfana am baratoi'r barbeciw eto eleni.

Y Parchedig Ddr. Wynford Thomas, Llanymddyfri oedd ein pregethwr gwadd yn ein cyrddau diolchgarwch nos Fercher, y 13eg o Fedi. Cafwyd oedfa fendithiol yn ei gwmni, a byddwn yn ei groesawu eto ar y 10fed o Ragfyr ar gyfer oedfa gymun cyn y Nadolig. Bydd Aled Lewis yn gwasanaethu ym Methel ar Hydref yr 8fed a Tachwedd y 12fed. Bydd yr oedfaon yma yn oedfaon cymun, ac yn dechrau am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr oedfaon.

Carnifal a mabolgampau Bro Fana

Cynhaliwyd y carnifal a'r mabolgampau ddydd Sadwrn, y 12fed o Awst ar barc Bro Fana. Cafwyd prynhawn hwylus, gyda thywydd braf i'r plant, o bob oed, fwynhau yr amrywiol gystadlaethau. Llywyddion y dydd oedd Eirian a Catherine Morgan, Sŵn yr Einion, teulu gweithgar a chefnogol yn y gymuned. Yn hwyrach yn y dydd, cafwyd helpa drysor wedi ei

threfnu gan Eifion a Ethel Davies, Llys Helen, a'r enillwyr eleni oedd Roy a Judy Jenkins gyda Huw a Llinos Bowen yn ail. Diolch i'r swyddogion, Ethel, Judy a Gwyneth, a phawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y diwrnod.

Neuadd Bro Fana

Yn dilyn cyfnod tawel dros fisoedd yr haf, mae cyngor y neuadd bellach wedi paratoi rhaglen lawn ar gyfer y gaeaf gan ddechrau gyda chyngerdd yng nghwmni Côr Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn ar nos Wener, y 3ydd o Dachwedd. Ar yr 8fed o Ragfyr, cynhelir Bingo yn y neuadd dan arweiniad Ethel a Judy. Byddwn yn croesawu Lleisiau Bro Eirwyn i'r noson o garolau a chyngerdd a gynhelir nos Sul, yr 17eg o Ragfyr. Mae'r noson yma yn cael ei threfnu yn flynyddol gydag aelodau o'r eglwys a'r capeli lleol yn cymryd at y rhannau arweiniol, ac elw'r noson yn mynd at elusen. Ym mis Chwefror 2018, byddwn yn cael cyfle i weld fideos o rai o gyngherddau Nadolig Ysgol Ffarmers a gynhaliwyd dros y blynnyddoedd – y dyddiad i'w gadarnhau. Ar yr 2ail o Fawrth, byddwn yn croesawu y Prifardd Aneirin Karadog wrth i ni ddathlu Gŵyl Ddewi 2018. Ceir manylion llawn am yr holl weithgareddau yma yn nes at y digwyddiadau. Os hoffech wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a gynhelir yn y neuadd, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i neuaddbrofana@ffarmers.org ac mi anfonir nodyn i chi yn gyson.

CFfl Dyffryn Cothi


Dyma grynodedd bras o uchafbwyntiau diweddar.

Dewiswyd Dafydd J i gynrychioli'r sir yn y tîm rygbi 7-bob-ochr yn y Sioe Frenhinol lle roedd Sir Gâr yn sir nawdd eleni, a Glyn Jones yn rhan o dîm hyfforddi'r garfan.

Chwaraeodd Sulwen a Carwen R i dîm y swyddfa yn Noson Chwaraeon y Sir a wnaeth ennill y gystadleuaeth bêl-rwyd, a dewiswyd Carwen yn gapten ar dîm pêl-rwyd y sir ar gyfer diwrnod chwaraeon C.Ff.I Cymru.

Trefnwyd gornest gneifio lwyddiannus unwaith eto eleni wedi seibiant a chystadleuaeth cneifio cyflym y llynedd, eto yng Nghilgawod, Caio. Diolch iddyn nhw fel teulu, ac i bwyllgor Cneifio Cothi, aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r clwb am eu gwaith cyson er mwyn sicrhau llwyddiant y digwyddiad.

Chwaraeodd Dafydd Jenkins yn nhîm rygbi 7-bob-ochr y Sir yn y Sioe Frenhinol Cymru a ddaeth i'r brig dros Gymru, canodd Carys Haf yng nghystadleuaeth canu unigol y C.Ff.I a daeth hi'n bedwerydd,



Cynhaliwyd Sioe Ebolion Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig yn Fferm Penparc, Llanbed nos Wener Medi 15fed. Yn ennill y Brif Bencampwriaeth roedd yr eboles Adran D, pencampwr ei hadran, 'Eglwysfach Rosie' eiddo Elgan Evans, Caegwyn, Harford. Yma mae'n derbyn Cwpan gan Lywydd y Sioe, Mr. Cemaes Evans, Bridfa Cathedine, beiriniad y bencampwriaeth.



Aelodau CFfl Dyffryn Cothi

a chneifiodd Rhydian a dod i'r wythfed safle yng nghystadleuaeth gneifio'r C.Ff.I. Dymunwn hefyd longyfarch ambell berson arall am eu campau anhygoel yn ystod wythnos hynod lwyddiannus i Sir Gâr. Cafodd Alun (llywydd) ac Eirwyn (aelod) gryn lwyddiant yn y sioe eleni – nhw oedd perchnogion oen hwrdd buddugol, dafad fuddugol, oen fenyw fuddugol, y grŵp o dri buddugol a phencampwraig adran y Defaid Penfrith Beulah eleni eto, a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Enillon nhw hefyd gwpan y Teulu Lloyd am grŵp o dri o ddefaid ucheldir a mynydd Cymreig. Yn ogystal â hyn, aeth y ddafad fuddugol yn adran y defaid Penfrith Beulah ymlaen i fod yn bencampwraig pencampwr y defaid ucheldir cynhenid ac yna'r holl ddefaid, a daeth eu hoen fenyw yn ail ym mhencampwriaeth rhyngfryd yr wyn menyw. Dylid hefyd longyfarch Gethin Mathias a dderbyniodd y wobr gyntaf am ei garcas yn ogystal â'r wobr 'Best Bred in Wales'. Aeth ei garcas ymlaen i fod yn is-bencampwr carcas y sioe.

Cynhaliwyd ein CCB ar y 13eg o Orffennaf eleni. Dyma restr o'r swyddogion a benodwyd ar y noson: Cadeirydd – Iwan Poulton;

Is-Gadeirydd – Deian Thomas; Trysorydd – Eirwyn Richards; Ysgrifennydd Cyffredinol – Carwen Richards; Ysgrifennydd Cystadlaethau – Aled Thomas; Ysgrifennydd Rhaglen – Craig Randell; Ysgrifennydd Cofnodion – Anna Davies; Cofrestrydd – Dion Davies; Arweinyddion: Karen Stacey, Nina Davies, Georgina Cornock-Evans, Eleanor Lewis, Pauline George, Nicola Morgan, Kevin Morgan, Hywel Davies, Ian O'Connor, Glyn Jones. Llywydd: Mr. Alun Richards, Cwmcelyn. Is-Lwydd: Mr. Douglas Davies, Cothi Vale

Carwn ddiolch o galon i Ms. Eiry Griffiths am ei gwasanaeth fel arweinyddes i'r clwb dros nifer o flynyddoedd, ac am fod yn llywydd arnom y llynedd.

Cynhaliwyd ein noson agoriadol eleni ar y 31ain o Awst gyda 30 o aelodau a darpar-aelodau'n bresennol. Rydyn ni'n awyddus i agor ein drysau i aelodau newydd o 10-26 oed ar bob adeg felly dewch, â chroeso!

Dyma raglen y clwb ar gyfer mis Hydref: 5 – Cwrdd Diolchgarwch; 12 – Gemau yn y Neuadd; 19 – Bingo ac Ymarfer Eisteddfod; 26 – Noson Calan Gaeaf – Mwyngloddiau Aur Dolaucothi.

Myfyrdodau Jones y Fish

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Clonc yn cyhoeddi pump o erthyglau wedi eu hysgrifennu yn arbennig ar gyfer papur bro. Dyma ffrwyth gwaith Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd a enillodd iddo'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ym mis Awst. Yn ôl y beirniad, Catrin Withers, roedd Jones y Fish – neu Huw Alltgoch i ni – yn “...ysgrifennu'n dda mewn tafodiaith rywiog.” Mae'n bleser gan Clonc gael cyhoeddi'r gwaith gan wybod y bydd yr erthyglau'n rhoi mwynhad mawr i'n darllenwyr.

Glaw neu hindda

Rwy'n hollol argyhoeddedig mai'r unig ffordd i ffarmwr ddefnyddio rhagolygon tywydd y teledu adeg y cynhaeaf yw gweithredu o chwith yn llwyr. Brockway yn addo cawodydd - mae'n saff i ladd gwair, Yvonne â'i heuliau, wel cau'r iet a chwilio côt fowr! Ma' nhw fel lloi, yn wir mae'r rheiny'n nes i'w lle. Os yn bugunad cyn gwawrio maent yn galw'r glaw, os yn gyrru'n blufied â'u cynffonnau fry, ar ras rhag Robin Gyrrwr, yna bydd gwasgedd uchel am ddyddiau.

Mae natur yn o agos ati. Onid oedd yr anifeiliaid gwyllt wedi dianc i dir uwch oriau cyn tswami Indonesia? A dyn, gyda'i loerennau a'i labordai mor dwp ag erioed. Ond y gwartheg, os yn gorwedd gyda'r wawr, cadw'u gwâl yn sych maent ac fe bora'r ci hefyd cyn bo'r cymylau'n arllwys eu llwyth. Profiad? Greddf? 'Gwybod' yn sicr, tu hwnt i ddeall dyn.

Ystyriwch y brain: pan maent yn twmlo maent yn 'tynnu'r glaw lawr' ond os bydd maint tin britsh o awyr las am ddeuddeg ceir prynhawn hindda. Dywedir 'mae shitw'n addo eira' pan fo'r gath â'i phen-ôl at y tân a chyn hir bydd 'rhen wraig yn plufio gwyddau; eira mân eira mawr; eira bras eira bach. Arwydd arall o'r fflwchen wen yw defaid Jacob yn mynd i'r dŵr sef cymylau mân, tywyll uwchben ac os deil rhew y llyn hwyaden cyn y Nadolig ni ddeil ddyn wedi hynny. Bydd y gaeaf wedi erthyly.

Gŵyr pawb am y fuwch goch gota a 'bwa'r ach y bore' ond mae'r broga yn dipyn o sgolar hefyd. Dynoda un tywyll law ond un melyn ddyddiau o heulwen haf. Yn ôl Dic Jones,

Â'r broga'n llwyd, llwyd y llyn
Mae haul mewn broga melyn.

A'r ŵyn - mae'n naturiol iddynt brancio, ond os yw'r mamau'n towlu eu tinau storm sy'n agos. Mae dameg fyn'na siwr o fod!

Y 'Coel Ddyddie' sydd sicraf. Nodir tywydd dechrau, canol a therfyn pob diwrnod o'r 9fed i'r 14eg o Ionawr. Cyfateba pob diwrnod i fis gyda'r nawfed yn darogan hin Ebrill ac felly ymlaen. Rhowch gynnig arni.

Neithiwr addawai Chris Jones haul crasboeth heddiw, ond 'reiliad hon mae'r gwynt o dwll y glaw:

Gwennol ar ei bola a'r brain yn lleisio gwae,
Y dail yn dechrau moelyd a'r praid yn newid cae.
Cyn hir daw'r glaw ar awel fain,
Nid gau broffwydi ydy'r rhain.

Pencarreg



Yr anifail gorau ar y cae oedd pencampwr adran y ceffylau dan gyfrwy, eiddo Megan Thomas, Cwmann gyda Hannah Parr, yn derbyn cwpan Llywydd y Sioe, Mrs Enfys Downes, beirniad y dosbarth.

Cwrtnewydd



Pencampwr adran y gwartheg Holstein yn Sioe Llandysul oedd, 'Top Shot Blomke' eiddo Paul, Bessie a Bryn Williams, Cwrtnewydd.

Llyfr Ysgol Cwrtnewydd

Annwyl ddarllenwyr Clonc,

Ym mis Gorffennaf eleni mi wnaeth Ysgol Cwrtnewydd gau ei drysau am y tro olaf, bron i 140 mlynedd ers iddi agor yn 1878.

I ddathlu addysg ym mhentref Cwrtnewydd, mae Pwyllgor Dathlu Addysg Cwrtnewydd am greu llyfr llawn lliw, lluniau ac atgofion a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn y Nadolig. Mi fyddai'n anrheg Nadolig perffaith i unrhyw un sydd â chysylltiad â Chwrtnewydd neu ddiddordeb yn yr ardal ac ysgolion bach y wlad.

Fe fydd y llyfryn yn costio rhywle rhwng £10 a £12 ac, er mwyn helpu gyda'r costau, r'yn ni'n apelio am danysgrifwyr.

Trwy dalu blaendal o £10 ymlaen llaw, byddwch yn sicrhau llwyddiant y fenter ac yn gwneud yn siŵr o gael eich copi chi.

Bydden ni'n hynod o ddiolchgar petaech chi'n gallu cysylltu cyn diwedd mis Hydref.

Cysylltwch â fi, Luned Mair, drwy e-bost: llyfrysgolcwt@outlook.com neu ar y ffôn: 01570 481412/07791 006620 neu trwy'r post, i Cartref, Alltyblaca, Llanybydder SA40 9ST.

Diolch o galon,
Luned Mair (cyd-Ysgrifennydd Pwyllgor y Dathlu)

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Goronwy Davies, Esgerlygoer ar golli ei chwaer ac hefyd gyda'r



Margaret Ann Jones, Cwrtnewydd yn ennill Tarian am y gwin a'r cyffeithiau gorau yn Sioe Llandysul.

holl berthnasau eraill sy'n byw yn yr ardal. Preifat fu'r angladd yn Amlogfa Aberystwyth.

Ffarwelio

Dechrau mis Hydref ffarweliodd Anne Evenden, Gwalia a symud i fyw i 29 Brynnyreglwys, Llambled. Gobeithio y byddi yn hapus yno a byddi yn dod nôl i weithgareddau'r pentref.

Yn yr ysbyty

Gobeithio bod Dannie Harries, Gelli lawer yn well erbyn hyn yn dilyn ei gyfnod yn yr ysbyty yn ystod mis Medi. Cofion cynhesaf atoch am wellhad llwyr a buan.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn



01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedd
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedd

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

Colofn y C.Ff.I.



Llwyddiant i aelodau C.Ff.I Sir Gâr

Ar benwythnos y 23ain a'r 24ain o fis Medi, aeth nifer fawr o aelodau Mudiad y Ffermwyr Ifanc o Gymru a Lloegr i Sioe Malvern i gystadlu yn y cystadlaethau Coginio a Gosod Blodau i aelodau'r mudiad. Yng nghanol yr aelodau yma i gyd roedd cynrychiolwyr o C.Ff.I Sir Gâr.

Yn y gystadleuaeth Coginio roedd gan Sir Gâr ddau dîm - C.Ff.I San Ishmael gyda Catrin Lewis, Millie Hughes Butterfield a Caryl Jones a C.Ff.I Dyffryn Tywi - Cerys Thomas, Angharad Thomas a Gwenann Jones. Tasg y timoedd yn y gystadleuaeth yma oedd creu ac arddangos tri chwrs ar y thema "O amgylch y byd".

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Lewis, Millie Hughes Butterfield a Caryl Jones am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth. Da iawn hefyd i Cerys Thomas, Angharad Thomas a Gwenann Jones am ddod yn 17eg. Canlyniad da iawn, yn enwedig gan fod 38 o dimau yn cystadlu.

Roedd chwe aelod o'r Sir yn cystadlu yn y gystadleuaeth Gosod Blodau, gyda dau yn yr adran dan 16, dau yn yr adran dan 21 a dau hefyd yn yr adran dan 26. Thema'r gystadleuaeth o dan 16 oedd gwneud arddangosfa i ddarlunio un o'r llefydd y gwnaeth Phileas Ffog ymweld â nhw yn y nofel antur glasurol Around the World in 80 days. Thema'r gystadleuaeth o dan 21 oedd "Eich taith C.Ff.I Delfrydol." Ac yna, dan 26 roedd angen creu arddangosfa i ddangos dathliad neu wyl genedlaethol o'ch gwlad ddewisol.

Llongyfarchiadau enfawr i Carys Morgan, C.Ff.I Llanfynydd am ennill y gystadleuaeth dan 16. Da iawn hefyd i Lowri Jones, C.Ff.I Llangadog am ddod yn 8fed yn yr un gystadleuaeth. Llwyddiant arbennig i ddwy ifanc iawn!

Lora Phillips, C.Ff.I San Ishmael ac Aled Owens, C.Ff.I San Clêr oedd yn cynrychioli'r Sir yn yr adran dan 21. Da iawn i Lora am ddod yn 11eg ac i Aled am ddod yn 15fed mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Da iawn i Charlotte Caswell o Glwb San Clêr am ddod yn 17eg ac i Angharad Francis, C.Ff.I Llanfynydd am ddod yn 26ain.

Llongyfarchiadau i'r holl aelodau am eu camp yn ystod y penwythnos.

C.Ff.I. Ceredigion

Wrth i'r haf ddirwyn i ben mae hynny ond yn golygu un peth - blwyddyn newydd i'r C.Ff.I. ac angen atgoffa pawb ymaelodi unwaith eto am flwyddyn llawn bwrlwm gyda chystadlu, cymdeithasu a dysgu sgiliau newydd!

Yn ystod yr haf buom ar draws y Sir yn hyrwyddo'r mudiad. Gwelwyd ein stondin yn sioeau amaethyddol Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedd.

Ar yr 2il o Fedi, bu aelodau'r Pwyllgor Gweithgareddau ar daith i weld y dolffiniaid yng Nghei Newydd a chloi'r noson yn nawns Sioe Llandysul i fwynhau noson ola' Bryn Fôn yn diddanu'r dorf.

Cynhaliwyd 'It's a Knockout' y Fforwm Ieuenctid yng Nghel Aeron, Cilau Aeron ar y 15fed o Fedi. Cafwyd noson hynod fyrlymus a llawn sbort gyda thîm Felinfach yn dod i'r brig.

Yn ein cyfarfod cyffredinol blyneddol a gynhaliwyd yn Neuadd Y Jiwbilî, Llangeitho, etholwyd Mererid Jones, Felinfach yn Gadeirydd y Sir a Caryl Haf, Llanddewi Brefi yn Is-gadeirydd y Sir am y flwyddyn i ddod. Etholwyd Euros Davies yn Llywydd y Sir a Milwyn Davies yn Is-lywydd.

Canlyniadau'r Clwb 200: Mis Awst: 1. Arwyn a Heledd Williams, Llys y Gân, Derwen Gam; 2. Gwenan Owen, Pantywern, Dihewyd; 3. Alwen Thomas, Y Wenallt, Cilau Aeron. Medi: 1. Haf Hughes, Cwmere, Felinfach; 2. Geraint a Caroline Davies, Fron, Pontsian; 3. Lloyds Bank.

Digwyddiadau: 7fed Hydref - Diwrnod Maes y Sir, Tregaron; 18fed Hydref - Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir: Hyrwyddo Teithiau Tramor; 2il & 4ydd Tachwedd - Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Bont; 8fed Tachwedd - Hyfforddiant Barnu Carcas, Dunbia; 12fed Tachwedd - Cyfweiliadau Teithiau Tramor CFFI Cymru; 15fed Tachwedd - Pwyllgorau'r Sir; 18fed Tachwedd - Eisteddfod CFFI Cymru yn Venue Cymru, Llandudno.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbedd**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

**Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau**

Gwasanaethau Coed Llanbedd



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbedd, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: Elin Vaughan-Miles
Oed: 32
Pentref: Felinfach
Gwaith: Cydlynnydd yn y Ganolfan Deuluol yn Llambed
Partner: Owen Miles
Teulu: Owen, Guto, Gwion, Lisa Anni, Mam, Aled a Ken

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Helpu dad ar y fferm a joio bod yng nghanol y baw! Neud lle cuddio mas o'r bêls gwellt amser wyna gyda Rhian (Llwynieir). Mynd i Bourton-on-the-water pan ar wyliau gyda mam-gu a tad-cu yng Nghaerloyw.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Dennis the Menace, Chuckle Vision a Grange Hill.

Yr eiliad o embaras mwyaf.
Ar drip ysgol fach i Gors Caron pan gwmpes i mewn i'r gors!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn gwrtais ac i weithio'n galed bob amser.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Steps - Tears on the dancefloor.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
O'n i ise gweithio gydag anifeiliaid.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Cael row 'da dad am ga'l beic yn sownd yn y ffos achos o'n i di anghofio ble oedd y ffos pan o'dd hast i hól y da! A dad dal yn gofyn i fi gerdded lan tu ôl y da.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Yn treulio amser gyda'r teulu neu ar y fferm.

Beth yw dy lysenw?
Els, Llwyn

Pwy yw dy arwyr?
Ben Lake

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Gweithio gyda theuluoedd a dangos beth sydd ar gael yn y gymuned i bawb, gyda chefnogaeth gwych gan fusnesau lleol.



Y peth gorau am yr ardal hon?
Pobol yn mynd mas o'u ffordd i helpu eraill

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Rhaid talu am barco yn bron bob man!

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Llaeth a Jaffa cakes

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol sydd ddim yn dweud plis a diolch

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bydden i'n ei roi at achos da "Ar Dramp dros Driniaeth" a gwario ychydig arno fi'n hunan hefyd gyda diwrnod o siopa.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan aeth rhywun mewn i ochr y car a ddim gweud dim byd wrtha i!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Am y fflamingos pinc a'r byd yn troi yn binc!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Digon o golor!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg ar ôl y plant – a ma ise neud digon o na da'r 3 sy' 'da fi, ma'n nhw'n fishi!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Gofalgar, hapus a llawn egni.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Person cymwynasgar sy' wastad yn barod i joio!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Audi A4 gyda dent ar yr ochr!

Beth yw dy hoff air?
Joio!

Beth yw dy hoff wisg?
Jeans, top a fflip fflops

A'th hoff adeilad?
Harbourmaster, Aberaeron

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian o Shapla, Llambed!

Beth yw dy ddiod arferol?
Paned o de gyda digon o laeth Arla!

Beth yw dy hoff arogl?
Arogl siop trin gwallt

Sut wyt ti'n ymlacio?
Mynd allan am de prynhawn gyda ffrindiau a cha'l gwydraid o Prosecco.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
www.oasis.co.uk

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
999

Person enwocaf ar y ffôn symudol?
Elin Haf!

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Fy llygaidd glas

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Tebot

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu a ffrindiau

Y gwyliau gorau?
Gwyliau gyda'r merched

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Canada, Yr Eidal ac Awstralia.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Rhedeg hanner marathon, ennill y loteri, mynd ar wyliau gyda'r teulu i sgio.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Rhoi sws mawr i'r plant a troi'r ffôn bant.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Yn y Ganolfan Deuluol gyda grant mawr er mwyn cynnig lot mwy o bethau cyffrous i deuluoedd yr ardal.

Cadwyn Cyfrinachau mis nesaf:
Enw: Mark Davies (Tynloft)

Corsgoch

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gethin a Sara Hatcher, Penllain ar eu priodas.
Hefyd, llongyfarchiadau i Gwawr Hatcher ar raddio eleni. Pob lwc gyda'r ymarfer dysgu cynradd.

Cymanfa Garolau

Cynhelir Cymanfa Garolau Capel Brynhafod nos Sul yr 17eg o Ragfyr am 7.30. Dewch draw i ddathlu hwyl y Nadolig gyda ni.

Cartref newydd

Croeso cynnes i Elfed, Eleri, Elan ac Elis nôl i fyw yn Alltyblaca wedi iddynt adeiladu cartref newydd, sef Llwynderi. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

Gwellhad Buan

Bu Sam Lewis, Tegfryn yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn.

Drefach a Llanwenog

Cffl Llanwenog 60

Llynedd, dathlodd C.Ff.I. Llanwenog ben-blwydd arbennig iawn - 60 mlynedd o fodolaeth. Er mwyn cofnodi'r achlysur, cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol.

Noson gyda chwis hwylus yn seiliedig ar hanes y clwb oedd Cwis y Dathlu, gyda nifer fawr o aelodau, cyn-aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r clwb yn hel atgofion am y 60 mlynedd diwethaf. Cafwyd hen luniau a fideos, ffeithiau a llond neuadd o hen lyfrau cofnodion a llyfrau lloffion. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Lewis Davies. Dyma'r tîm buddugol yn y cwis. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.

Cynhaliwyd ein cinio yng Ngwesty Tyglyn Aeron lle daeth llond ystafell ynghyd i ddathlu pen-blwydd arbennig ein clwb yn 60. Roedd ein siaradwr gwadd ychydig yn wahanol i'r arfer - cafwyd ffilm o gyn-aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r clwb yn rhannu eu hatgofion nhw am y clwb. Os nad ydych wedi cael cyfle i weld y ffilm yna ewch i YouTube, a chwiliwch am 'C.Ff.I. Llanwenog' ac am y fideo 'Fideo Dathlu Cffl Llanwenog.'



Gwnaed cacen y dathlu gan Gareth y Goedwig. Rhian ein llywydd a Luned ein cadeirydd a dorrodd y gacen.

Ym mis Mehefin daeth llond lle o aelodau, arweinyddion a chefnogwyr ynghyd i gwblhau sialens 60 milltir i ddathlu'r 60 mlynedd. Sialens a hanner! Beicio, nofio, rhedeg, rhwyfo, cerdded a thynnu tractor am gyfanswm o 60 milltir o gwmpas ein hardal. Roedd y tractor Allis Chalmers hefyd yn 60 mlwydd oed, a diolch i Elgan am gael ei benthgyl hi. Tynnwyd y tractor gan raff tynnu'r gelyn er mwyn cynrychioli cysylltiad clos y clwb â'r gamp o dynnu rhaff. (Y Sialens: 16.6 milltir ar y beic, 2 filltir yn y pwll nofio, 16.8 milltir arall ar y beic, 5 milltir o rwyfo, rhedeg am 6.2 milltir, nôl ar y beic am 8.9 milltir eto, cerdded am 3.4 milltir ac i orffen, tynnu tractor am 1.1 milltir.)

Roedd hi'n werth bob munud o ymarfer, chwysu, paratoi a threfnu oherwydd mae'n braf gennym gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi £10,680.56 tuag at Alzheimer's Cymru. Mae'n wir i ddweud ein bod wedi derbyn cefnogaeth anhygoel gan bawb - ffrindiau, cefnogwyr, y gymuned, busnesau, cwmnïau, noddwyr a llawer mwy. Rydyn ni'n werthfawrogol iawn am yr holl gymorth a chefnogaeth. Ni fyddai'r clwb wedi gallu codi'r fath swm anrhydeddus heb eich help difflino chi. Diolch yn fawr i chi gyd.

I orffen ein dathliadau, cafwyd Diwrnod o Hwyl yn sied Caerwenog. Llywydd y dydd oedd Mr Emyr Jones. Pinacl y diwrnod oedd y Sialens Gneifio, lle daeth 60 aelod neu gyn-aelod at ei gilydd i gneifio 60 o wyl Llanwenog. Roedd oedran y cneifwyr yn amrywio o'u hwythdegau i'w harddegau, gyda'r dynion hynaf yn rhai o sefydlwyr y clwb. Braf oedd gweld amrywiaeth o gneifwyr yn cynrychioli'r holl ddegawdau yn dod ynghyd a chwblhawyd y sialens heb broblem. Yn ystod y diwrnod hefyd cafwyd twrnament rownderi, gyda'r aelodau, cyn-aelodau, arweinyddion, rhieni a ffrindiau'r clwb yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cystadleuaeth frwd iawn (i ddweud y lleiaf!) Un o dimau'r cyn-aelodau a ddaeth i'r brig gyda'r arweinyddion yn ail. I orffen y diwrnod cynhaliwyd Ocsiwn y Dathlu. Diolch i'r cyfranogwyr i gyd am eu rhoddion tuag at yr ocsiwn, ac mae'n braf gallu dweud ein bod wedi codi £3,525 tuag at goffrau'r clwb, gyda diolch i Fanc Barclays am eu nawdd punt am bunt. Bu'r diwrnod yn gyfle arall i edrych ar hen lyfrau cofnodion a lloffion y clwb, chwarae gemau dwl, yn gyfle i gwrdd â hen ffrindiau, i hel atgofion ac i fwynhau. Clo teilwng iawn i flwyddyn o ddathlu.

Diolch i bawb am bob cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn fawr. Heb flewyn ar dafod, mae wedi bod yn flwyddyn i'w chofio. Ymlaen â ni at y 70!

Cffl Llanwenog

Nos Wener Medi 22ain cyflwynwyd siec am £10,680.56 i Alzheimer's Cymru yn dilyn y Sialens Fawr ym mis Mehefin i nodi pen-blwydd y clwb yn 60. Dyma siec swmpus iawn a hoffem ddiolch eto i bawb am eu gwaith ar gyfer y sialens ac am yr holl gefnogaeth ar hyd y daith. Roedd yn ddiwrnod i'w gofio. Lluniau ar dudalennau 23 a 24.

Hefyd yn ystod y mis diwetha fe gyflwynodd y clwb siec arall i elusen Beiciau Gwaed Cymru gwerth £750. Hon oedd elusen ddewisol y clwb llynedd a chodwyd yr arian wrth ganu carolau. Braf hefyd oedd cael noson yng nghwnmi



Noson Gwis CFfl Llanwenog.



Criw y sialens ar ôl cyrraedd nôl i Gefnhafod ar ddiwedd y 60 milltir.



Dyma lun o fwyafrif o'r cneifwyr ar ddiwedd y sialens.



Dyma lun o'r cyn-gadeiryddion a oedd yn bresennol yn y Diwrnod Hwyl.

Drefach a Llanwenog

rhai o'r gwirfoddolwyr a dysgu mwy am fudiad mor arbennig. Diolch unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth.

Hefyd yn ystod y mis fe fuodd rhai o'r Clwb ar ymweliad â'r Laser Shooting yng Nghaerfyrddin. Noson llawn hwyl a sbri ac, wrth gwrs, roedd rhaid galw yn McDonalds cyn mynd am adre. Fe fuodd rhai o'r aelodau ifancaf yn cystadlu yn It's a Knockout

Fforwm Ieuenctid y Sir. Da iawn Tim B am ddod yn ail. Fe gawson ni noson ddiddorol arall pan ddaeth Mr Byron Williams atom i ddysgu sgil newydd arwyddiaith, neu sign language. Mae'n dda cael dysgu rhywbeth newydd a diolch iddo am roi o'i amser.

Mae'r clwb ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer y Diwrnod Maes sy'n cael ei gynnal ar y 7fed o Hydref ym mart Tregaron. Dewch yn llu i gefnogi. Hoffem eto groesawu unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â'r clwb i ymweld â'r wefen. Ni fyddwch yn cael eich siomi.

www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Wrth gau'r llyfrau,

Wrth gau'r drysau,

Yn ein hysgolion ninnau.

Awn i agor drysau newydd,

Dyffryn Cledlyn gyda'n gilydd.

Yng ngeiriau plant blwyddyn 5 y tair ysgol wrth gydweithio gyda'r bardd Ceri Wyn Jones, daeth y diwrnod disgwylidiedig ac 'agorwyd drysau newydd.'

Gwelwyd cyffro amlwg yn Nrefach ar fore cynta'r tymor lle daeth 110 o blant yn eu gwisgoedd glas llachar drwy ddrwsau newydd Ysgol Dyffryn Cledlyn. Roedd ambell i wyneb nerfus ac ambell un yn betrusgar ond buan tawelodd y nerfau ac erbyn hyn mae pawb wedi cynefino gyda'r lleoliad newydd ac yn mwynhau mas draw.

Thema'r tymor yn y Cyfnod Sylfaen yw 'Perthyn' ac mae'r plantos wedi dechrau ar eu dysgu trwy greu mapiau meddwl, casglu lluniau a chynllunio eu dysgu.

Y Rhyfel Byd Cyntaf a hanes Hedd Wyn yn ystod cyfnod dathlu canmlwyddiant Bardd y Gadair Ddu yw symbyliad disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Maent eisoes yn mwynhau astudio trwy ymgyswrtio â'r adnoddau digidol newydd wrth greu cyflwyniadau a barddoniaeth.

Cynhaliwyd etholiad pwysig ar ddiwedd yr wythnos agoriadol er mwyn dewis a sefydlu Cyngor yr Ysgol. Wedi'r cyfrif cyhoeddwyd mai aelodau'r Cyngor fydd Elen Morgan (Cadeirydd), Elan Jenkins (Ysgrifennydd), Meredydd Davies (Trysorydd) Clodagh Dalton (Is Gadeirydd), Swyn Tomos, Lowri Rees, Lilly Mae- Evans, Steffan

Rivers, Catrin Davies, Sioned Elias Davies, Mari Rees, Ethan Rees, Angharad Davies a Dion Evans. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd. Maent eisoes wedi dechrau ar eu gwaith ac wedi cynnal cyfarfodydd er mwyn cynllunio a rhannu syniadau.

Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol am y flwyddyn yw Meredydd Davies a Katy Moyes. Maent hwythau hefyd wedi dechrau yn frwdfrydig ar eu gwaith trwy fynd ar gwrs undydd i blant yng Nghanolfan Hamdden Llanbed. Hefyd maent wedi cynnal nifer o sesiynau chwaraeon i hybu iechyd a ffitrwydd yn ystod yr awr ginio ac mewn gwersi ymarfer corff.

Hoffem estyn croeso i Dyfrig Davies, ein Swyddog Datblygu Rygbi newydd. Mae wedi ymweld â'r ysgol nifer o weithiau yn barod i gynnal sesiynau hyfforddi campus i blant blwyddyn 5 a 6.

Mae clwb yr Urdd yn cwrdd bob nos Fawrth ac ar y noson agoriadol gwelwyd dros hanner cant o blant wedi dod ynghyd. Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cynnal noson o 'chwaraeon potes' i bawb. Cafwyd llawer o hwyl wrth i'r lleiaf a'r mwyaf ymuno gyda'i gilydd i fwynhau'r gweithgareddau.

Mae nifer o ddisgyblion yn aros ar gyfer Clwb Cledlyn, sef clwb gofal ar ôl ysgol. Maent yn cael hwyl wrth fwynhau amrywiaeth o weithgareddau dan arweiniad Caryl Rosser, Lynwen Holmes a Linda Jones.

Croesawyd aelodau o Gynulliad Cymru i'r ysgol a chafodd yr aelodau gyfle i grwydro'r safle newydd.

Cofiwch am ein cyfrif Trydar - @dyffryncledlyn. Mae croeso mawr i chi ddilyn hynt a helynt wythnosol yr ysgol trwy ddelweddau gweledol cyson o weithgareddau'r disgyblion.

Mae'r wythnosau agoriadol wedi mynd yn hwylus iawn ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at weddill y tymor.

Cydymdeimlo

Ddiwedd mis Medi collwyd un o drigolion y pentref a oedd bellach wedi treulio peth amser yng Nghartref Preswyl Min y Môr yn Aberaeron. Bu farw Mair Davies gynt o Dolwerdd a chydymdeimlwn gyda Gareth a'r teulu yn Maesglas, ac Eileen a'i theulu hithau yn Cosheston ger Doc Penfro. Preifat fu'r angladd ac fe roddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Capel Carmel, Prengwyn.

Gwellhad Buan

Derbyniodd Mair Hatcher, Abernant lawdriniaeth yn ystod y mis. Gobeithio dy fod dipyn yn well erbyn hyn, Mair. Cymer ofal.

Dathlu Pen-blwydd

Dathlodd Hazel Thomas, Penpompren ben-blwydd arbennig ddiwedd mis Medi. Gobeithio eich



Cyngor Ysgol Dyffryn Cledlyn.

bod wedi mwynhau'r dathlu!

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Rhys ac Elin, Cefnrhuddlan Uchar ar achlysur eu priodas ar Fedi 30ain.

Y Gymdeithas Hŷn

Cafwyd diwrnod pleserus ar gyfer ein taith olaf yn nhymor 2017. Gogledd Sir Benfro oedd yr atyniad y tro yma, ac ardal Trefdraeth yn benodol. Ymweld yn gyntaf â Bragdy Bluestone a chael hanes y broses o fragu'r cwrw a'r gwahanol flasau a gynhyrchir yno. Roedd pawb yn berffaith sobor wrth fynd ymlaen â'r daith i Ganhwyllau Cilgwyn, a gweld Inger John wrth ei gwaith yn creu canhwylau o bob lliw a phersawr. Cyfle i wneud ychydig siopa yn eto, a braf oedd cael cyfle hefyd i gwrdd â gŵr Inger, sef Brian John y nofelydd. Mae wedi ysgrifennu nifer o lyfrau, ac mae ganddo gyfres sydd wedi ei lleoli yn ardal Trefdraeth, â Charningli - neu Mynydd yr Angylion - yn ganolbwynt iddynt.

Cafwyd amser am ychydig luniaeth yn Nhreftdraeth, ac yna mynd drws nesaf i'r Tŷ Twt i weld casgliad anhygoel o dai doliau wedi eu dodrefnu'n fanwl hanesyddol mewn gwahanol gyfnodau. Roeddent yn dyddio o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at heddiw.

Roedd gennym ychydig o amser i'w lanw, felly aed ymlaen i Abergwaun a mynd i weld Tapestri glaniad y Ffrancod yng Ngharregwastad ym 1797. Mae'n anodd credu bod ugain mlynedd wedi mynd ers i rai ohonom ei weld y tro cyntaf, a'r syndod oedd bod yna rai heb ei weld erioed!

Cafwyd swper blasus iawn yng Ngwesty Llwyngwair cyn dod am adre, a phawb wedi mwynhau'r diwrnod. Diolchodd Mrs Dilwen George, y Cadeirydd, yn fawr i Mrs Ann Walters, Brynhogfaen am drefnu'r diwrnod ar ei hyd, a braf gweld ei mam wedi gwella i ddod gyda ni. Ein cofion at yr aelodau nad ydynt yn hwylus ar hyn o bryd, gan obeithio y byddwch yn medru ymuno

â ni yng nghyfes cyfarfodydd y gaeaf. Bydd y cyntaf o'r rheiny dydd Mercher, Hydref 11eg am 1.30 yp yn Neuadd y Pentref, Drefach.

Eglwys Santes Gwenog

Dymunwn bob llwyddiant ac hapusrwydd i'r athrawon, staff a'r disgyblion yn eu hysgol newydd, sef Ysgol Bro Cledlyn yn Nrefach. Bydd yr adnoddau mwyaf diweddar a holl naws yr ysgol yn siŵr o ysbrydoli'r plant gyda'u gwaith.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Cynhaeaf nos Lun Hydref 2il, â swper y Cynhaeaf yn dilyn yn yr Eglwys Fach.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Fox a fu farw yn ddiweddar. Bu'r angladd yn yr Eglwys ar yr 20fed o fis Medi yng ngofal y Ficer, y Parch. Suzy Bale.

Dymunwn adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl, naill ai gartref neu yn yr ysbyty.

Clwb 100 Mis Awst: 1. Mrs Jean Davies, Llanybydder; 2. Mrs May Griffiths, Llanwenog; 3. Mrs Eleri Davies, Llanwenog.

Capeli Brynteg a Bethel Drefach

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Brynteg nos Fawrth, Hydref 17eg am 7 yh, pan fydd y Parch. Carys Ann yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Cofiwch hefyd am Wasanaeth Diolchgarwch Clwb Ffermwyr Ifainc Llanwenog a gynhelir ym Mrynteg eleni nos Lun, Hydref 16eg.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethel Drefach nos Fawrth y 3ydd o fis Hydref, a'r pregethwr gwadd oedd y Parch Stephen Morgan, Trefilan.

Pentrebach

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y cydymdeimlwn â Twynog Davies, Frondolau a'r teulu oll ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr sef Eirwyn Thomas o Beniel, Caerfyrddin.



gan Gary Slaymaker

Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis:

6ed Hydref - THE LEVELLING (R)

Wedi'i lleoli yng Ngwald yr Haf, ar ôl llifogydd 2014, ma hon yn adrodd hanes Clover (Ellie Kendrick), sy'n mynd adre i fro a fferm ei mebyd ar ôl i'w brawd farw mewn damwain erchyll. Wrth iddi ail-gyfarwyddo â'r ardal, ma na hen greithiau'n cael eu hail-agor – yn enwedig y berthynas danllyd rhyngddi hi a'i thad, Aubrey (David Troughton). Mae'n swno fel ffilm ddigon trymaidd, ond ma na urddas a grân yn perthyn i hon, o'r dachre i'r diwedd. Ma'r perfformiade'n gryf, a'r stori'n gafael o'r cychwyn cynta; a ma cyfarwyddo nerthol Hope Dickinson Leach yn ychwanegu at naws hesb a garw'r cymeriadau a'r tirwedd. Un o'r ffilmie Prydeinig gorau eleni, a gan ma hon yw ffilm gynta Leach, ma hi'n gyfarwyddwr i gadw llygad graff arni ar gyfer y dyfodol.

20fed Hydref - HIDDEN FIGURES (PG)

'Sdim byd gwell na gweld ffilm sy'n cynnig adloniant o'r safon ucha, a gwers hanes ryfeddol yr un pryd. A na beth gewch chi gyda Hidden Figures – stori wir am dair mathemategwraig groenddu, oedd yn gwbwl hanfodol i lwyddiant NASA yn ei dyddiau cynnar. Heb y tair fenyw ryfeddol yma, bydde John Glenn erioed wedi cyraedd y gofod. Ma hon wedi bod ar yn rhestr i o 5 ffilm orau'r flwyddyn ers mis Chwefror, a 'sdim golwg ohoni'n shiffto nawr. Perfformiade gwyh gan Taraji P Henson, Octavia Spencer, a Janelle Monae fel y tair; a chymorth cryf iawn gan Kevin Costner, fel un o benaethiaid NASA. Allech chi gyhuddo'r ffilm o fod ychydig yn ystrydebol yn y ffordd mae'n adrodd y stori, ond damo, pan ma gyda chi hanes mor ddifys, 'dyw rhywbeth bach fylna ddim yn ymyrryd lawer ar nerth y ffilm. Mae'n afaelgar, yn bositif, ac yn debygol o gadw gwen ar y wyneb am oriau ar ôl iddi orffen. Werth pob ceiniog dalwch chi i weld hi.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Dangosir ffim yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch ar nos Iau diwethaf y mis am 7.30yh. Mynediad am ddim.

I gofio'n dyner am

**Sulwen Lloyd Thomas
Llaindeg, Cellan**

Hunodd ar y 5ed o Hydref 2007



Rob, Rhodri, Llŷr a'u teuluoedd

Mae hiraeth degawd yn dristhâd dros fro
A'r 'Llân' a'r lliaws yn anwylo'r co'.



Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

**Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:**

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

**Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:**

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael



I Fyd Hud y Madarch

Ddechrau mis Hydref fel hyn mae'r madarch ar eu gorau. Bob tro yr âf allan am dro i'r caeau ar y fferm, mae'n bosibl i mi ddod o hyd i fadarch.

Cofiwch, rhaid bod yn ofalus yn eu casglu, a gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod pa rai sy'n addas i'w bwyta.

Mae blas a gwynt madarch yn fy atgoffa o ddyddiau braf yr hydref, a charped o glytwaith dail dan draed.

Wrth i chi ddefnyddio madarch i goginio, mae'n syniad cael amrywiaeth ohonynt, neu ddefnyddio madarch porcini sych i ychwanegu blas cyfoethog. Mae yna amrywiaeth ar gael yn yr archfarchnadoedd erbyn hyn. Dyma gasgliad o rysetiau i ddod â blas yr Hydref i'r gegin.

Mwynhewch y Madarch

Gareth

Cyw Iâr wedi Rhostio â Madarch

Cynhwysion:

300g madarch	2 winwnsyn mawr
50 g menynd	1 ewin garlleg wedi'i falu
2 lwy fwrdd perllysiau	Sudd a chroen 1 lemwn
1 cyw iâr mawr	2 fwlb ffenigl (fennel)
5 llwy fwrdd gwin gwyn	wedi'u darnio

Dull:

1. Torrwch y madarch a ffriwch gyda'r winwns a'r garlleg gan ddefnyddio ½ y menynd.
- Ychwanegwch y perllysiau a'r lemwn, a gadewch i oeri.
2. Rhyddhewch groen y cyw iâr, yna llenwch â'r gymysgedd madarch. Toddwch weddill y menynd mewn disgyl caserôl, a browniwech y cig gan roi brest y cig am i lawr.
3. Rhowch y ffenigl o amgylch y cyw iâr, blaswch â phupur a halen, ychwanegwch y gwin, a dewch â'r cwbl i'r berw. Yna gorchuddiwech â ffoil, a rhowch yn y ffwrn ar wres 190 C/375 F am tua awr a hanner. Gweiniwch gyda llysiau'r Hydref.

Brithyll â Madarch

Cynhwysion:

4 brithyll	2 lwy fwrdd blawd plaen
50 g menynd	1 genhinen
25 g madarch cymysg	2 llwy fwrdd gwin gwyn
1 llwy fwrdd caprys (capers)	2 llwy fwrdd persli
Sudd 1 oren	

Dull :

1. Ychwanegwch halen a phupur at y blawd. Torrwch 4 darn o bapur pobi.
2. Ffriwch y madarch a'r genhinen yn ½ y menynd nes yn feddal, yna ychwanegwch y caprys, gwin a'r sudd oren.
3. Gosodwch y brithyll ar y darnau papur. Rhowch y madarch ar eu pen, a sgeintiwch â'r persli a gweddill y menynd.
4. Gnewch becynnau o'r papur i selio'r cyfan oddi mewn.
5. Gosodwch ar dun pobi ar wres 190 C, Nwy 5 am 20 – 25 munud.
6. Gweiniwch gyda llysiau

Madarch wedi eu Llenwi (Digon i 4 fel cwrs 1af)

Cynhwysion:

12 madarch	1 ewin garlleg
Ychydig o shibwns	50 g menynd
50 g briwsion bara	50 g caws Parmesan
1 pot o gaws hufennog blas shibwns	

Dull

1. Tynnwch goesau'r madarch, a llenwch â'r caws hufennog
2. Torrwch goesau'r madarch yn fân, a ffriwch yn y menynd. Rhowch mewn powlen gyda'r briwsion bara, parmesan a'r shibwns, halen a phupur.
3. Llenwch y madarch â'r gymysgedd: rhowch mewn disgyl addas i'r ffwrn, a phobwch am 25 munud ar wres 180 C. Gweiniwch gyda berw'r dŵr.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llangybi a Betws

CFfl Bro'r Dderi

Wedi i fwrlwm y Rali ddod i ben, cafwyd hoe o'r clwb dros yr Haf ond mae'r Clwb eisoes wedi ail ddechrau ym Mis Medi yn dilyn AGM llwyddiannus. Etholwyd Lowri Pugh-Davies yn gadeiryddes y clwb a Lisa Evans yn ysgrifenyddes. Pob croeso i chi gysylltu â hwy ar unrhyw adeg.

Rydym yn cwrdd bob yn ail nos Lun yn Neuadd Ysgol y Dderi, Llangybi am 7.30yh. Cafwyd barbeciw clwb ar yr 11eg o Fedi er mwyn dathlu llwyddiannau'r clwb dros y flwyddyn, ond hefyd dyma farbeciw i groesawu hen aelodau nôl i'r clwb, ac wrth gwrs, gyda'r gobaith o ddenu aelodau newydd. A dyma beth oedd noson lwyddiannus o ran denu aelodau newydd. Gwelwyd nifer o wynebau newydd ac edrychwn ymlaen am y flwyddyn sydd i ddod.

Er mai newydd ddechrau nôl mae'r clwb, rydym wedi bod yn brysar iawn. Fe gynhaliodd y sir gystadlaeth It's a Knockout yn ddiweddar, a gyda dau dîm o Fro'r Dderi yn cystadlu, daeth un yn drydydd ar ddiwedd y noson. Yn ogystal â hyn, mynychodd ein haelodau AGM y Sir a phwyllgorau diweddaraf y Sir.

Ysgol y Dderi

Croeso cynnes i'r holl blant sydd wedi ymuno â ni yn y meithrin ac yng nghorff yr ysgol. Gobeithio eich bod yn mwynhau chwarae a dysgu gyda ni.

Gyda'r Clwb Ceginio yn dathlu deng mlynedd eleni, pa ffordd well i ddathlu na gyda chegin newydd i'r ysgol! Cynhaliwyd y clwb cyntaf eleni nos Lun diwethaf gyda'r criw yn paratoi pîtsa mawr yr un i fynd adref. Un o bleserau mwyaf y plant yw cael mynd adref â'r cynnyrch i rannu gyda'u teuluoedd. Diolch i Miss Jen am ei gwaith diflino dros y clwb ac am ei pharodrwydd i roi o'i hamser i ddarparu cyfleoedd ceginio wythnosol i'n plant.

Ar Ddiwrnod Roald Dahl bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn astudio cymariaethau o lyfr Matilda. Yna aethant ati i greu disgrifiadau eu hunain o Miss Honey a Miss Trunchbull – dyna beth oedd hwy! Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn astudio Charlie a'r Ffatri Siocled, a'r uchafbwynt oedd cymryd rhan mewn gweithdy gwyddoniaeth "Sialens Siocled" dan ofal Prifysgol Aberystwyth. Diolch i Rachel a James am y profiadau diddorol.

Yn rhan o'r thema blwyddyn 5 a 6 "Rhyfeddodau'r byd", daeth Meinir Evans i fewn i siarad am ei phrofiadau wrth deithio ar draws y byd gan gynnwys Machu Pichu, Uluru (Ayers Rock), Crist y Gwaredwr, Taj Mahal, Rheodrau Niagra a llawer, llawer mwy!

Ehangwyd gorwelion ein plant yn llythrennol! Diolch am eich amser, Mrs Evans.

"Clie! Clie! Y Dderi" yw'r thema disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ystod yr hanner tymor yma, sef'r thema yn edrych ar hanes lleol a ffotograffiaeth ddigidol. Cafwyd diwrnod gwyb yn Aberystwyth gan ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn gyntaf. Cawsom weld trysorau'r genedl gan gynnwys y ffotograff hynaf o Gymru, sef Castell Margam gan Calvert Richard Jones yn 1841. Dyma un o'r enghreifftiau cynharaf o ffotograff daguerreoteip yn y byd! Cawsom ni hefyd weld casgliad Mary Dillwyn, sef ffotograffydd benywaidd cyntaf Cymru. Dywedir mai hi oedd y cyntaf yn y byd i dynnu ffotograff o ddyn eira, a'r cyntaf i ddal gwên mewn ffotograff. Casgliad ffotograffiaeth mwyaf nodedig y llyfrgell yw casgliad John Thomas o Gellan! Yn wir, wrth edrych ar ei gasgliad helaeth gwelsom luniau bendigedig o Gellan nôl yn y 19 ganrif! Diolch o galon i Rhodri Morgan am ei waith.

Aethom ymlaen wedyn i Ganolfan y Celfyddydau a threulio amser gyda Steve yn edrych ar ddelweddau negatiff o ffilm yr oeddem wedi eu tynnu nôl yn yr ysgol ynghynt. Esboniodd Steve sut i droi'r ffilm negatiff yn ffotograffau positif yn yr ystafell dywyll. Roedd elfen o hud a lledrith wrth weld y delweddau yn ffurfio o flaen llygaid y plant! Roedd pob un plentyn wedi datblygu ffotograffau eu hunain ac wedi dysgu llawer.

Bu Jago ac Anna, gor-gor-gor-gor-gor-gor nith a nai Jane Austen, yn cyflwyno'r £10 newydd i weddill y dosbarth. Roedden nhw wedi paratoi cyflwyniad ar fywyd diddorol Jane Austen ac roedd pawb wedi dysgu pethau newydd.

Croeso cynnes i chi ymuno yng nghyrrddau Diolchgarwch yr ysgol ddydd Mercher, 18fed o Hydref. 10 y bore, Gwasanaeth y Cyfnod Sylfaen yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi; 10 y bore, Gwasanaeth CA2 yn Eglwys Llanfair; 1.30 y prynhawn, Gwasanaeth Ysgol Gyfan i'r henoed, yn neuadd yr ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i Riley a Christie ar gael eu hethol yn Llysgenhadon Efydd Ysgol y Dderi eleni. Mae'r ddau wedi dilyn hyfforddiant yn ddiweddar ac eisoes wedi cynnal sesiynau sgiliau chwaraeon gyda'u cyfoedion. Daliwch ati!

Llongyfarchiadau mawr i Dion Teilo am ddod yn y pump uchaf mewn trnament golff rhyngwladol yn y Celtic Manor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Betrys Llwyd Dafydd am gael ei derbyn yn aelod o Gôr Ceredigion ac i Beca Elan am ennill lle gyda Chwmni Opera Caerfyrddin. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.



Eirian Lewis, Llangybi yn ennill Pencampwriaeth y Gwartheg Duon Cymreig gydag anner gyflo yn Sioe Llandysul.



Meinir Evans yn siarad â blwyddyn 5 a 6 Ysgol y Dderi am ei phrofiadau wrth deithio ar draws y byd.

Merched y Wawr Y Dderi

Treuliwyd prynhawn difyr, diddorol a chroesawgar iawn yng Ngwinllan Llaethliw yn Nyffryn Aeron brynawn Mercher, Medi 13eg. Cawsom dreulio prynhawn hyfryd yng nghwmni Sue Evans a hi fu yn rhoi hanes y fenter o gynhyrchu gwin i ni drwy gyfrwng fideo. Hi a'i gŵr Richard a'u mab Jac sydd wedi adeiladu y fusnes lewyrchus o'r dechrau cyntaf. Mae'n anodd credu bod yna winllan mor enfawr yn ein hardal ni a chymaint o winwydd yno – miloedd ohonynt. Gwaith caled yw cynhyrchu potelaid o win, mae eisiau amynedd ac amser i'r planhigion dyfu ac aeddfedu a thywydd ffafriol, ond maent wedi llwyddo yn aruthrol ac wedi ennill gwobrau cenedlaethol am eu cynnyrch. Roedd pawb wedi mwynhau yr hanes a bu blasu ar dri math o win.

Croesawyd un aelod newydd, sef Myra, gan y llywydd Gwyneth Jones a hi a fynegodd ddiolch am ein croeso a diolch hefyd i Ann Davies am lunio'r Rhaglen. Rhoddwyd y raffl gan Mair Spate ac fe'i henillwyd gan Deborah a Myra.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 18fed yn Ysgol y Dderi am 7.00y. h. Croeso cynnes i aelodau newydd. Y gŵr gwadd y noson honno fydd Geraint Morgan.

Hamdden

Bydd Hamdden yn dechrau yn Ysgol y Dderi ar Hydref 6ed am 2.00y.p. pryd y disgwylir Eirwen James i sôn am hanes Stad y Dderi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad y fro â theulu Blaenwern yn eu profedigaeth o golli modryb yn ddiweddar ac â phob teulu arall sydd wedi colli anwyliad.

Hefyd â theulu, ffrindiau a chymdogion y diweddar Mr Alan Grey, Coxhead.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Morina Davies, Llwynonn ac i Glenys Davies, Olmarch Villa ar ôl iddynt gael triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i Helen French, Rhydlanfair am adferiad buan a llwyr ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili.

Brysiwch wella eich tair.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Evans, 3 Godre'r Coed ar enedigaeth eu merch Elsi Medi. Dymuniadau calonnog hefyd i Zoe Jones, Cysgod y Coed ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth troi Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestore.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

O'r Cyngorau Bro

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 10 Gorffennaf 2017 am 8.00yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mai..

Agenda- Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod. Swyddogion -Yr oedd David Thorne wedi derbyn swydd gohebydd y wasg. Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Yr oedd y cae ger y cae chwarae yn cael ei brynu gan y Cyngor a phenderfynwyd gan y Cyngorwyr bod angen gwneud y canlynol: Lledu'r bwlch i'r cae; Clirio'r borfa yn y cae; Cafwyd cadarnhad trwy e-bost gan swyddog o'r sir mai rhwng Medi a Hydref 2017 y byddai angen gwneud yr archwiliad nesaf o'r adnoddau.

Diwrnod Hwyl - Yr oedd y diwrnod hwyl wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni eto. Rhannwyd yr elw rhwng yr Ysgol, y Cylch Meithrin a'r CFfl. Byddai rhodd yn cael ei roi i'r Clwb Ar Ôl Ysgol ddechrau mis Medi.

Ysgol Sul yr Eglwys, Llanllwni - Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngorwyr i gefnogi'r cais.

Gwefan Llanllwni - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc ac yn Clecs Bro Cader.

Cyngor Sir Gâr - Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn ymgeisio am y grant eleni eto. Dyddiad Cau 21 Gorffennaf 2017.

Cyfarfod Hyfforddiant - Roedd aelod wedi mynychu'r Cyfarfod ar 06 Gorffennaf 2017 a chafwyd adborth diddorol.

Cysgodfan Bws - Cafwyd cadarnhad gan Linda Evans y byddent yn cael eu glanhau yn y dyfodol agos.

Sbwriel - Pont y Rheilffordd - Gwarewm: Y gwaith wedi ei gwblhau.

Llythyron o ddiolch - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanllwni. Apêl Sir Caerfyrddin, Sir Nawdd CAFC 2017. (Pwyllgor Rhanbarthol y Gogledd).

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cyngorwyr.

Unrhyw fater arall - Yr oedd Farnyard Nurseries wedi plannu'r blodau ac yr oedd Dewi Davies yn mynd i ofyn iddynt am anfoneb am blannu blodau yn ystod gwanwyn-hydref 2016 a gwanwyn 2017.

Tyllau yn yr Hewl - Penrhewl Abercwm.

Plismona yn y gymuned - Roedd y Cyngorwyr yn datgan pryder nad oedd plismon yn mynychu cyfarfodydd i drafod materion o fewn y pentre. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu ag Eleri Bonning unwaith eto cyn y cyfarfod nesaf. Yr oedd cryn bryder ynglŷn â cheir yn rasio ar fynydd Llanllwni a bod tarw a buffalos yn ymddangos ar y mynydd yn ystod misoedd yr haf. Yr oedd angen cysylltu hefyd am gyflymdra ceir yn mynd heibio Glanafon am bont Manorafon.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Medi 2017 am 8.00yh.

Cwmsychpant

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 19eg am 7:30 o'r gloch gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni yn gwasanaethu. Croeso cynnes i

bawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â phawb o deulu Maesglas wedi i Gareth golli ei fam yn ddiweddar.

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

☎ 07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com





GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensiō a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

LKitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Darteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnwydd,
01570 434 243
07815 962 045



Cellan

Capel yr Erw

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth, Hydref 10fed am 7 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Huw George, Sir Benfro. Croeso cynnes i bawb.

Aelwyd Newydd

Croeso i Owen a Jane Jones a'r merched, Erica a Jessica, sydd wedi ymgartrefu nol ym Maesyberllan yng Nghellan. A phob dymuniad da i Euros a Barbara Jones yn eu cartref newydd yn Llambled.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Betty Heath a fu farw yn sydyn ddydd Iau 31 Awst yn 69 mlwydd oed. Roedd Betty yn ferch i'r diweddar George a Nancy Heath, 2 Trecynon, Cellan ac yn

chwaer annwyl i Tesni, Roy, Trevor, Lona, Alan, Malcolm a'r diweddar John. Roedd hefyd yn chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl ac yn ffrind i bawb. Roedd Betty wedi ymgartrefu ers blynnyddoedd yn ardal Llandybie, Cross Hands ac, yn fwy diweddar, yng Nghefneithin. Bu'r angladd yn Amlosgfa Llanelli ar 7 Medi.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Dorian ac Avril, Dolcoed, Maesymeillion ar ddod yn dat-cu a mam-gu i Elsi Medi, merch fach i Marc a'i gymar.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Ken a Mary Jones, Glasfryn, Cellan ar achlysur eu Priodas Aur ar yr 21ain o Hydref. Oddi wrth y teulu i gyd.

Llanwnnen



Prif bencampwr adran y defaid yn Sioe Llandysul oedd dafad Texel las 2 flwydd oed yn cael ei dangos gan Rhys Williams, Tynllyn, Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Torrodd aelodau Sefydliad y Merched y pentref eu patrwm arferol ym mis Medi drwy gyfarfod ar ddydd Sadwrn yr ail o Fedi yn hytrach nag ar nos Lun, a hynny er mwyn mwynhau te prynhawn o ddanteithion cartref wedi'u paratoi a'u gweini yn Y Gegin Haul, Abermeurig gan Alwen Llwyd, enillydd 2013 y gystadleuaeth goginio 'Casa Dudley' a ddarlledwyd ar S4C. Yn gyntaf cynhaliwyd cyfarfod byr gydag Avril Jones yn y Gadair ac yna treuliwyd prynhawn hamddenol a phleserus yn gwledda a chloncan. Addurn ar ffurf ci oedd cystadleuaeth y mis a'r enillydd oedd Ceinwen Roach, gyda Gwen Davies yn ail a Carol Thomas yn drydydd.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod John Williams, Brynamlwg yn teimlo'n well yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Hefyd gobeithio fod John Jones, Penpompren yn gwella wedi iddo gael anffawd i'w bigwrn yn ystod y mis.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad profesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



LAS Recycling Ltd



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)



ARWYN VOBÉ ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Wel mae'r Hydref wedi cyrraedd ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i wedi bod yn brysur dros ben yn tacluso fy nghragen yn barod ar gyfer y tywydd oer. Bues i hefyd yn cystadlu yn sioe leol Aberoncyn y penwythnos diwethaf ac enillais darian anferth am y crwbân â'r gwddf hiraf. Roeddwn wrth fy modd! Ydych chi erioed wedi ennill gwobr am gystadlu? Wel, beth am roi cynnig ar y gystadleuaeth hon?

Bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun ac yn agos i'r brig y mis yma mae Elin Pugh o Aberystwyth. Ond yr enillydd y mis hwn yw Gwenno Ruth Jones, Pantyrhendy, Llanarth. Da iawn ti, Gwenno, am liwio'r llun mor daclus gan ddefnyddio holl liwiau'r enfys.

Wwww... mae'n dechrau oeri gyda'r nos nawr ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i'n hoff iawn o dymor yr Hydref gan mai dyma'r amser pan dw i'n cael cyfle i orffwys a thacluso. Beth am fynd ati i liwio'r llun hydrefol hwn o'm ffrind Bob y Bwgan Brain? Cofiwch ei ddychwelyd ataf erbyn 23ain Hydref.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Gwenno
Ruth
Jones

Ffair Nadolig Pontsian

Neuadd Pontsian

Dydd Sul, 19eg o Dachwedd

rhwng 10:30yb a 3yh.

Dros 30 o stondinau gyda chrefftau amrywiol a chynnyrch lleol. Gwobrau raffl gwych wedi'u rhoi gan ein stondinwyr.

Elw'r dydd yn mynd tuag at Elusen Cancr Lleol.

Mynediad-£3 oedolion a £1 blant uwchradd, pris yn cynnwys diod twym a mins pei.

Os ydych yn ymateb i
hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni
ymhle y gwelsoch yr
hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



MAMALIAID MEWN ENWAU LLEOEDD (97)

Mae'n ddeng mlynedd bellach ers i Andrew Lucas gyhoeddi ei astudiaeth bwysig 'Mammals in Carmarthenshire: Mamaliaid yn Sir Gaerfyrddin'. Mae'n gloddfa gyfoethog i'r naturiaethwr ac yn cynnwys mapiau sy'n nodi parth amryw byd o rywogaethau a gofnodwyd yn y sir.

Mae yma ambell hanesyn annisgwyl hefyd megis hwnnw am y morfil a nofiodd i fyny afon Lluchwr a chyrraedd hyd at Langennech! Yn Awst 1907 y digwyddodd hyn ond cofiaf yn dda am yr hanes yn cael ei adrodd ag afiaith yn y pentref dros drigain mlynedd yn ddiweddarach. Stori afaelgar arall yw honno am dri dwrgi yn 1883 yn erlid crwt deuddeng mlwydd oed ar draws corsdir Pinged, rhwng Pen-bre a Chydwelli.

Y ffwlbar

Mae'r ffwlbar yn weddol o gyffredin ar draws Sir Gaerfyrddin a'i gynefin yn cwmpasu coetiroedd, coedwigoedd, corsydd, glannau afonydd, creigiau glan môr, twyni tywod, ffermydd a hyd yn oed canol trefi. Un enw yn unig sy'n coffáu'r ffwlbar yn Sir Gaerfyrddin sef BRYN FFWLBART uwchben afon Duad ym mhlwyf Cynwyl Elfed, nid nepell o Gwmdud a Llanpumsaint.

Mae'r ffwlbar yn bwydo'n bennaf ar gwningod neu ysgyfarnogod ond mae llygod bach, adar, amffibiaid a gweddillion celanedd yn brae deniadol iddo yn ogystal. Yn Sir Gaerfyrddin, modurwyr yw gelynion pennaf y creadur dulwyd hwn erbyn hyn. Onibai am y gweddillion a welir ar ymyl ein ffyrdd, mae'r ffwlbar bron yn anweledig ond yn ddrewllyd o ran ei sawr.


Yr ysgyfarnog

Prin, yn ogystal, yw'r enwau sy'n coffáu'r ysgyfarnog yn Sir Gaerfyrddin. Gwn am bedair enghraifft yn unig. Mae'n debygol i'r ysgyfarnog ddod yma

gyntaf gyda'r Rhufeiniaid a thiroedd agored yw ei gynefin.

Mae'r ysgyfarnog dan fygythiad gwirioneddol yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd a'i niferoedd wedi treio'n enbyd ers y 1950au. Ystyrir mai'r newid mewn dulliau amaethu sy'n bennaf gyfrifol am hyn: disodli ffermio cymysg yn raddol gan economi sy'n canolbwyntio ar laeth a defaid. Nid yw'r ysgyfarnog yn ffynnu dan amodau o'r fath. At hyn, mae saethu anghyfrifol gan glybiau drylliau i'w feio hefyd. Mae adroddiad o ardal Pencader i weithgarwch o'r fath ddifa bron holl boblogaeth yr ysgyfarnogod lleol dros gyfnod o bedair blynedd yn y 1990au.

Mae CWMYSGYFARNOG ac ALLT CWMYSGYFARNOG ym mhlwyf Llangathen.



Mae NANT YSGYFARNOG yn tarddu yng nghyffiniau Esgair Tan-lan yn nyffryn Cothi. Mae PANT YSGYFARNOG ym mhlwyf Llangynog.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasenuwalleoedd.cymru
enwalleoedd@gmail.com

Cyfraniadau Clodwiw



Mr Haydn Richards, Cadeirydd Côr Cwmann, yn cyflwyno sic o £500 i'r Cyng. Ieuan Davies tuag at Gangen Llanybydder a'r Cylch o'r elusen Ymchwil Cancr a Mr Kees Huysmans, Is-Gadeirydd y Côr, yn cyflwyno sic o £500 i Mrs Hazel Thomas tuag at Ysgol Gymraeg Esquel. Adroddiad ar dudalen 6.



Aelodau CFfI Llanwenog yn cyflwyno sic o £10,680.56 i Alzheimer's Cymru wedi holl weithgareddau'r clwb yn 60 oed eleni.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sic o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Cweithgareddau Codi Arian CFF Llanwenog 60



Beth am fynd allan am y diwrnod ar y Bws - gallai fod yn docyn delfrydol



Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am – 7pm

01239 801 601

Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o 7am - 7pm



Beth am ymweld a'r amrywiaeth o atyniadau sydd gan Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i'w cynnig yn ystod eich gwyliau...

rhowch gynnig ar Bwcabus!

616 Temple Bar - Llanbedr Pont Steffan - Cwmann Drwy Cribyn Dydd Llun i ddydd Sadwrn (oni nodir fel arall)

am/pm	M+F am	NMF am	M+F pm
Temple Bar, Fronfelin Arms	9.25	9.25	...
Cribyn, Cofeb	9.29	9.29	...
Llanwnnen, Bro Llan	9.36 A	9.36 A	...
Llanbedr Pont Steffan, Natwest	9.43	9.43	12.20
Llanbedr Pont Steffan, Co-op	9.44	...	12.21
Cwmann, Ram Inn	9.47	...	12.24

am/pm	M+F am	NMF pm	M+F pm	pm
Cwmann, Ram (Cofeb)	9.48	...	12.25	...
Llanbedr Pont Steffan, gyf Co-op	9.50	...	12.27	...
Llanbedr Pont Steffan, Llew Ddu	9.53	12.30	12.30 B	4.30
Llanwnnen, gyf Bro Llan	...	12.36	12.36	4.36
Cribyn, Cofeb	...	12.42	12.42	4.42
Temple Bar, lloches	...	12.46 R	12.46 R	4.46 R

A: Nid yw'n codi teithwyr ar ôl Llanwnnen (Bro Llan) ond bydd yn aros i ollwng

B: Nid yw'n gollwng teithwyr cyn Llanwnnen (Bro Llan) ond bydd yn aros i godi

R: Yn mynd ymlaen i Temple Bar ar gais yn unig

M+F: Dydd Llun a dydd Gwener yn unig • Monday and Friday only

NMF: Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Sadwrn yn unig

Amserlen Gwasanaeth Llwybr Sefydlog Bwcabus - Dim angen bwcio



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

